



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Deddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r  
Nodiadau Esboniadol

**Mawrth 2026**

# Cynnwys

<b>RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL</b> .....	2
<b>1. Disgrifiad</b> .....	2
<b>2. Cymhwysedd Deddfwriaethol</b> .....	3
<b>3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael</b> .....	4
<b>4. Ymgynghori</b> .....	34
<b>5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth</b> .....	36
<b>RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL</b> .....	40
<b>6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol</b> .....	40
<b>7. Yr opsiynau</b> .....	45
<b>8. Costau a manteision</b> .....	46
<b>9. Aseidiadau o'r effaith</b> .....	58
<b>10. Aseidiadau fforddiadwyedd</b> .....	64
<b>11. Adolygu ar ôl gweithredu</b> .....	66
<b>Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol</b> .....	67
<b>Atodiad 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog</b> .....	84
<b>Atodiad 3 - Atodlen o ddiwygiadau</b> .....	88

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1. Diben Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (“y Bil”) yw cynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd drwy gryfhau'r systemau presennol sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu eu hymddygiad.
2. Bydd y Bil yn cynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd i'w hetholwyr, drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer adalw Aelod etholedig, gan ei ddiswyddo yn ystod ei dymor ar sail yr ewyllys a fynegir gan bleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol.
3. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i gryfhau proses safonau'r Senedd fel y'i hystyrir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod rhaid i bob Senedd sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol, gan gyflwyno elfen o annibyniaeth ac arbenigedd i'r pwyllgor hwnnw drwy ofyniad i benodi o leiaf un aelod lleyg, a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiynydd Safonau fynd ati'n rhagweithiol i ystyried pryderon ynghylch ymddygiad Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bil hefyd yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau i'r Senedd. Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch dichell fwriadol, mae'n cyflwyno, yn benodol, ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffeithiau anwir. Yn yr achos hwn, ystyrir mai dyletswydd, yn hytrach na phŵer disgresiwn, sy'n briodol oherwydd bod y Bil yn mynd drwy'r broses seneddol ar ddiwedd tymor y Senedd, gyda'r nod o sicrhau y caiff darpariaethau o'r fath eu cynnwys mewn Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y dyfodol.
4. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.
5. Mae'n egluro cefndir darpariaethau a chwmpas y Bil, ac mae'n cynnwys asesiad o oblygiadau ariannol y Bil, ynghyd â chyfres o asesiadau effaith.

## **2. Cymhwysedd Deddfwriaethol**

6. Mae gan Senedd Cymru (“y Senedd”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

7. Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- Cefndir a chyd-destun Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (is-bennod 3.1); ac
- Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael (is-bennod 3.2)

#### 3.1 Cefndir a chyd-destun y Bil

##### **Craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

8. Yn ystod proses graffu Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), roedd y dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor Biliau Diwygio yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â system i adalw Aelodau o'r Senedd. Er na ddarparwyd ar gyfer mecanwaith adalw yn y Bil hwnnw, codwyd cwestiynau yn ei gylch wrth graffu ar y system etholiadol newydd ar gyfer etholiadau i'r Senedd. Ymhlith y themâu cyffredin yn y dystiolaeth roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o gynyddu atebolrwydd Aelodau, ond cydnabyddiaeth y byddai anawsterau ynghlwm wrth gyflwyno system adalw a fyddai'n gydnaws â system rhestr etholiadol gyfrannol.
9. Yn ei [adroddiad Cyfnod 1](#), argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

**Argymhelliad 50.** Dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad weithio gyda'r Comisiynydd Safonau, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol. Dylai hyn gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026.

10. Ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y [Pwyllgor Biliau Diwygio](#) ar 22 Ionawr 2024 yn derbyn yr argymhelliad.
11. Cyflwynwyd gwelliannau nad oeddent yn welliannau'r Llywodraeth yng [Nghyfnod 2 \(5 a 6 Mawrth 2024\)](#) ac yng [Nghyfnod 3 \(30 Ebrill 2024\)](#) a oedd

yn ceisio mewnosod system adalw yn eithaf tebyg i'r hyn sydd ar waith yn Senedd y DU. Byddai hyn wedi cynnwys "sbardunau" tebyg i'r rhai a ddarperir ar eu cyfer yn Nedd Adalw Aelodau Seneddol 2015, a phroses "ddeiseb" a fyddai – pe byddai mwy na 10% o'r etholwyr yn llofnodi'r ddeiseb - yn arwain at yr aelod hwnnw yn colli ei sedd.

12. Wrth wrthwynebu'r gwelliannau, nododd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd (yr Aelod a oedd yn gyfrifol am Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ystod trafodion Cyfnod 2:

*"...this is not a straightforward matter and requires careful consideration... I understand that the Standards of Conduct Committee have agreed in principle to take the work forward and I support this approach and look forward to working alongside the Standards of Conduct Committee, as appropriate, on this piece of work."*

13. Ni chytunwyd ar y gwelliannau nad oeddent yn welliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2 a chawsant eu tynnu'n ôl yn ystod trafodion Cyfnod 3.

### **Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol**

14. Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") i gynnal ymchwiliad i atebolrwydd Aelodau unigol a'r posibilrwydd ar gyfer ei gryfhau. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried datblygu opsiynau yn y meysydd a ganlyn:

- Adalw Aelodau (gan argymhell bod rhyw fath o bôl cyhoeddus yn y meysydd perthnasol a fyddai'n rhoi opsiwn i ddiswyddo Aelod o'r Senedd) gan gynnwys ystyried y canlynol:
- Y seiliau a fyddai'n sbarduno proses adalw;
- Beth fyddai natur proses adalw o'r fath;
- Y canlyniadau i system etholiadol y Senedd;
- Y rhesymau y caniateir eu defnyddio'n sail i anghymhwysu Aelodau yn ystod tymor y Senedd mewn perthynas ag atebolrwydd Aelodau unigol;
- Cynyddu'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor eu cymhwyso.

15. Gan ymateb i wahoddiad y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd i'r Pwyllgor ystyried sut i reoleiddio Aelodau ac ymgeiswyr sy'n ceisio dichellu, cytunodd y Pwyllgor i ehangu cwmpas ei ymchwiliad cychwynnol i gynnwys y canlynol:

- casglu tystiolaeth ynghylch manteision cyflwyno mecanweithiau pellach ar gyfer anghymhwysu Aelodau ac ymgeiswyr y canfyddir eu bod wedi dichellu etholwyr yn fwriadol, gan gynnwys drwy broses farnwrol annibynnol.

16. Ar 17 Mehefin 2024, ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd gerbron y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Wedi'r cyfarfod hwnnw, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 20 Mehefin 2024 yn amlinellu'r egwyddorion allweddol a ddylai fod yn sail i system adalw, gan nodi'n benodol y dylai wneud y canlynol:

- “Arwain at welliant gwirioneddol yn atebolrwydd aelodau unigol o'r Senedd ond gan barhau i fod yn deg i'r rhai o dan sylw.
- Bod yn gydnaws ac yn gyson â'r system etholiadol newydd.
- Bod yn gysylltiedig â threfn Safonau'r Senedd.
- Peidio â thanseilio gallu'r Pwyllgor Safonau i argymhell sancsiynau cymesur.
- Bod yn gydnaws â'r drefn anghymhwys; a
- Bod yn glir ac yn ddealladwy i'r etholwyr, gan gynnwys drwy fod mor gyson a chyfarwydd â phosibl i bleidleiswyr o fewn y dirwedd etholiadol ehangach yng Nghymru.”

17. Ar 2 Rhagfyr 2024, rhoddodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (“y Dirprwy Brif Weinidog”) dystiolaeth i'r Pwyllgor. Yn ystod y sesiwn honno, ailadroddodd y Dirprwy Brif Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cysyniad o adalw, a phwysigrwydd ystyried argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Wedi sesiwn y Pwyllgor, ysgrifennodd y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad eto, gan nodi'r canlynol:

*“Rydym yn cadw slot ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn y 5ed flwyddyn o'n rhaglen ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, ni ddylid tanddatgan yr amserlenni heriol, ac mae'n hanfodol bod pob rhan o'r broses yn gallu symud ymlaen yn gyflym. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i ddatblygu deddfwriaeth yn iawn mewn maes sydd â chynsail cyfyngedig a sicrhau bod gan y Senedd yr amser angenrheidiol i graffu ar y ddeddfwriaeth honno a'i gwella.”*

18. Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei [adroddiad adalw](#) ar 23 Ionawr 2025. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ymateb](#) i'r adroddiad ar 10 Mawrth 2025. Cynhaliwyd dadl ar adroddiad y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod llawn ar 12 Mawrth 2025, lle nododd y Senedd argymhellion y Pwyllgor yn ffurfiol.

## Cyd-destun Senedd y DU

19. Mae [Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015](#) yn amlinellu proses lle y bydd Aelod Seneddol yn colli ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin o ganlyniad i ddeiseb adalw lwyddiannus, gan arwain at yr Aelod yn colli ei sedd, sydd wedyn yn sbarduno is-etholiad. Nid yw'r ffaith bod yr Aelod Seneddol yn colli ei sedd yn ei atal rhag sefyll fel ymgeisydd yn yr is-etholiad hwnnw. Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri amod amgen ar gyfer agor deiseb adalw:

- Yr amod cyntaf yw bod Aelod Seneddol yn cael ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd ac yn cael dedfryd o garchar nad yw'n cael ei gwrthdroi ar apêl a gyflwynir o fewn y terfyn amser arferol ar gyfer apeliadau.

- Yr ail amod yw, wedi adroddiad gan ei Bwyllgor Safonau, bod Tŷ'r Cyffredin yn gorchymyn atal Aelod Seneddol rhag eistedd yn y Tŷ am gyfnod o 10 diwrnod eistedd o leiaf, neu, os na chaiff nifer penodol o ddiwrnodau eistedd eu nodi ar gyfer y cyfnod, caiff ei atal am gyfnod o 14 o ddiwrnodau o leiaf.
- Y trydydd amod yw y caiff Aelod Seneddol ei euogfarnu o dan adran 10 o Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (trosedd o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfansau), ni waeth beth fo'r ddeddfryd a osodir.

20. Pan fo un o'r amodau adalw wedi'i fodloni, bydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu swyddog deisebau etholaeth yr Aelod Seneddol o'r ffaith hon, ac yna bydd y swyddog deisebau yn agor deiseb adalw. Bydd etholwyr seneddol cymwys yn yr etholaeth honno yn cael cyfle i lofnodi'r ddeiseb dros gyfnod o chwe wythnos. Ni fydd deiseb adalw yn cael ei hagor pan fo etholiad cyffredinol Senedd y DU i'w gynnal o fewn y chwe mis nesaf, pan fo deiseb adalw eisoes ar y gweill mewn perthynas â'r Aelod Seneddol, neu pan fo'r Aelod Seneddol eisoes wedi gadael ei sedd.

21. Bydd deiseb adalw yn llwyddiannus pan gaiff ei llofnodi gan o leiaf 10% o etholwyr seneddol cofrestredig yn yr etholaeth honno (ac eithrio unrhyw etholwr y gwnaed ei gais cofrestru ar ôl y diwrnod y rhoddodd y Llefarydd ei hysbysiad yn ogystal ag etholwyr sydd o dan 18 oed ar ddiwedd y cyfnod llofnodi). Bydd deiseb lwyddiannus yn arwain at sedd yr Aelod Seneddol yn dod yn wag a chynnal is-etholiad.

22. Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin adroddiad o dan y pennawd [“The House of Commons standards landscape: how MPs' standards and conduct are regulated”](#). Cafodd y gwaith ei gwtoegi yn sgil diddymu'r Senedd cyn Etholiad Cyffredinol y DU.

23. Roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystyried a yw Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015, a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag anghymhwysio Aelodau, yn gweithredu'n foddhaol. Roedd hefyd yn cynnwys ystyried sut y gellid gwella'r ddeddfwriaeth.

24. Roedd argymhellion y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- a. “The Committee supports the recommendation from the IEP (Independent Expert Panel) that the Recall of MPs Act 2015 be amended to bring a suspension imposed by the House following on from a report from the IEP within the ambit of the second recall condition.”
- b. “We recommend that the Government accept the principle of post-legislative scrutiny of the Recall of MPs Act 2015 and bring forward timetabled proposals for the conduct of that scrutiny.”

25. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oedd yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith.

### **Cyd-destun Senedd yr Alban**

26. Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith adalw ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban. Fodd bynnag, cyflwynwyd Bil Aelod Preifat – [Bil Senedd yr Alban \(Adalw a Diswyddo Aelodau\)](#) – gerbron Senedd yr Alban ar **17 Rhagfyr 2024** gan Graham Simpson ASA (Ceidwadwyr yr Alban) a oedd yn ceisio darparu ar gyfer gweithdrefn o'r fath.

27. Roedd y Bil, pan gafodd ei gyflwyno, yn cynnig proses dau gam wedi i sbardun gael ei fodloni, yn debyg i fodel Senedd y DU. Yn gyntaf, byddai deiseb yn cael ei hagor, a byddai Aelod yn cael ei adalw yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- a. Pe bai mwy na 10% o etholwyr mewn etholaeth yn llofnodi'r ddeiseb.
- b. Pe bai 10% o etholwyr mewn rhanbarth yn llofnodi'r ddeiseb, ac y byddai'r trothwy o 10% hefyd yn cael ei fodloni mewn o leiaf tair o'r etholaethau unigol sy'n ffurfio'r rhanbarth.

28. Wedyn, yr ail gam fyddai naill ai:

- a. Mewn etholaeth, cynnal is-etholiad (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn system Seneddol y DU).
- b. Mewn rhanbarth, cynnal pŵl ynghylch a ddylai'r Aelod o Senedd yr Alban (ASA) sydd wedi'i "adalw" ailgymryd ei sedd, neu a ddylai'r darpar aelod nesaf ar restr plaid gymryd ei le (yn debyg i'r hyn a ragwelir ar gyfer system y Senedd).

29. Diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2, yn dilyn pryderon ynglŷn â'r model "deiseb ac yna pŵl" a oedd wedi'i nodi mewn perthynas ag ASAau rhanbarthol. Roedd y diwygiadau'n disodli'r model arfaethedig ar gyfer ASAau rhanbarthol â system debyg i'r un a argymhellir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer etholiadau'r Senedd – hynny yw, pŵl undydd "dylai/na ddylai" ynghylch a ddylai ASA rhanbarthol gael ei adalw ai peidio.

30. Ni chafodd y cynnig i Senedd yr Alban basio'r Bil yn dilyn gwelliannau yng Nghyfnod 3 ei gytuno, ac felly gwrthodwyd y Bil ar 24 Chwefror 2026.

### **Rhesymeg dros Gyflwyno System Adalw yn y Senedd**

31. Ystyriodd y Pwyllgor a oedd angen cyflwyno system adalw ar gyfer y Senedd. Nododd y Pwyllgor fod y mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:

- Ar ôl ei ethol, mae Aelod yn atebol i'w etholwyr ac yn y pen draw, mae Aelod sy'n sefyll i gael ei ailethol yn cael ei ddwyn i gyfrif gan y cyhoedd ym mhob etholiad.

- Gellir anghymhwyso a diswyddo aelodau yn ystod tymor y Senedd am resymau penodol, gan gynnwys os cânt eu heuogfarnu o drosedd a chael dedfryd o fwy na 12 mis o garchar.  
Disgwylir hefyd i'r aelodau fodloni'r safonau ymddygiad a'r rheolau a nodir yng Nghod Ymddygiad y Senedd a gallant wynebu sancsiynau am dorri'r rheolau hyn.

32. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes darpariaeth ar gyfer y Senedd ei hun i'w galluogi i argymhell y dylid diswyddo Aelod yn ystod tymor y Senedd.

33. Ystyriodd y Pwyllgor y broses adalw sydd ar waith yn Senedd y DU a'r broses adalw sy'n cael ei chynnig i'w chyflwyno yn Senedd yr Alban. Ceir crynodeb o'r prosesau hyn ym mharagraffau 26 – 29.

34. Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor yn gryf o blaid cyflwyno system adalw yn y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion i'r [ymgyngoriad cyhoeddus](#) a gynhaliwyd ganddo yn rhan o'i ymchwiliad. Cafwyd tystiolaeth o blaid cyflwyno proses adalw gan nifer o bartïon, gan gynnwys y Comisiynydd Safonau, y Sefydliad Materion Cymreig a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

35. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai cyflwyno system adalw yn “*rhan bwysig o'r drefn Safonau, ac i sicrhau eglurder a dealltwriaeth ynghylch y mesurau y gellir eu defnyddio i ddwyn Aelodau i gyfrif.*” Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad 1.** “*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno system adalw erbyn 2026, mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd.*”

36. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, gwnaeth Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad canlynol:

*“Byddaf yn cyflwyno Bil yn ystod y Senedd bresennol a fydd yn sefydlu system adalw. Mae datblygu deddfwriaeth sylfaenol, ei drafftio, craffu arni a'i phasio cyn diddymu, a hynny mewn ychydig dros flwyddyn, yn her sylweddol, ond yn un, os mai dyna yw dymuniad y Senedd, y bydd y Llywodraeth yn ceisio ei chyflawni.*”

*Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er y dylai'r amserlen hon ganiatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei rhoi ar waith, er ar fyrder, ni fyddai'n galluogi'r gwaith dilynol o ran datblygu a phasio is-ddeddfwriaeth neu unrhyw ganllawiau gan y Pwyllgor a fyddai eu hangen cyn i'r system gael ei gweithredu'n llawn. Er y bydd pasio deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Senedd hon yn gyflawniad pwysig, bydd angen bwrw ymlaen yn ddi-oed â'r gwaith o'i gweithredu'n llawn yn ystod y Seithfed Senedd.*”

## Opsiynau Adalw a Ystyriwyd gan y Pwyllgor

37. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y byddai angen i unrhyw broses adalw a argymhellid ganddo adlewyrchu'r system etholiadol ddiwygiedig a fydd yn dod i rym o etholiad y Senedd yn 2026 ymlaen. O'r pwynt hwn, bydd yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig a byddant yn cynrychioli un o'r un ar bymtheg o etholaethau amlaelod. Nid yw'r system etholiadol ddiwygiedig yn darparu ar gyfer is-etholiadau. Bydd swydd wag yn cael ei llenwi gan yr ymgeisydd cymwys nesaf ar restr y blaid neu, os yw'r rhestr wedi'i disbyddu neu fod swydd wag yn ymwneud ag Aelod annibynnol, bydd yn parhau'n wag.

38. Ymgynghorodd y Pwyllgor ar ddau opsiwn posibl ar gyfer proses adalw:

*Opsiwn 1: Cynhelir deiseb adalw yn gofyn a ddylid adalw'r Aelod. Pe câi'r Aelod yn ei adalw, byddai'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid y cafodd yr Aelod a ddiswyddwyd ei ethol drwyddi yn llenwi'r sedd wag. Mae'r dull hwn yn golygu y byddai llofnodi'r ddeiseb yn diswyddo'r Aelod, yn hytrach nag arwain at is-etholiad yn yr etholaeth honno. Byddai cymesuredd canlyniad yr etholiad diwethaf yn cael ei gynnal, a gellid llenwi swyddi gwag yn gyflym. Ni fyddai Aelodau newydd yn cael eu rhoi yn lle Aelodau annibynnol.*

*Opsiwn 2: Cynhelir pleidlais diswyddo a disodli, a fyddai'n rhoi'r opsiwn naill ai i gadw'r Aelod presennol neu i'w ddiswyddo a rhoi'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid yn ei le. Byddai gofyn cynnal cyfnod ymgyrchu, a fyddai'n caniatáu i'r Aelod sy'n destun y broses 'adalw' amddiffyn ei safbwynt gyda'r etholwyr. Byddai cymesuredd y Senedd yn cael ei gynnal. Ni fyddai Aelodau newydd yn cael eu rhoi yn lle Aelodau annibynnol.*

39. Ystyriodd y Pwyllgor drydydd opsiwn a gynigiwyd ar gyfer yr Alban gan Graham Simpson ASA. Byddai'r broses dau gam hon yn golygu gofyn yn gyntaf i etholwyr lofnodi deiseb yn adalw Aelod ac yna (yn amodol ar fodloni'r trothwy adalw) ofyn a ddylai'r Aelod hwnnw barhau yn ei swydd neu a ddylai rhywun arall gymryd ei le.

40. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru a Transparency International UK yn cynnwys pryderon nad oedd yr un o'r opsiynau hyn yn cynnwys is-etholiad ac y gallai disodli Aelod â'r ymgeisydd nesaf o'r un blaid arwain at "ganfyddiad bod plaid yn cael ei "gwobrwyo" am ymddygiad gwael Aelod blaenorol."<sup>1</sup>

41. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid cyflwyno proses un cam yng Nghymru ac na fyddai'r broses bresennol sydd ar waith yn Senedd y DU yn briodol o ran y cyd-destun yng Nghymru. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn:

---

<sup>1</sup> [Atebolrwydd Aelodau Unigol - Adalw – paragraff 77](#)

**“Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gan y system adalw – a gyflwynwyd ar gyfer y Senedd – un cam sy'n gofyn am ethol cwestiwn yn seiliedig ar yr egwyddor o gadw'r Aelod, neu ei ddiswyddo a'i ddisodli gan yr ymgeisydd nesaf ar restr ei blaid yn etholiad diwethaf y Senedd.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall.

**Argymhelliad 4.** “Mae'r Pwyllgor yn argymhell, o ystyried y broses a amlinellwyd gan y Pwyllgor, y dylid cyfeirio ato fel ‘pleidlais diswyddo a disodli’ yn hytrach nag adalw.”

42. Derbyniodd Llywodraeth Cymru Argymhelliad 2 a 3. Derbyniwyd Argymhelliad 4 mewn egwyddor, gan nodi “*efallai na fyddai “pleidlais diswyddo a disodli” yn rhoi digon o eglurder, gan na fydd y broses ei hun yn ymwneud â disodli – a fydd yn cael ei chynnal drwy'r prosesau arferol – ac na fyddai'n digwydd ym mhob achos, er enghraifft, pe bai'r rhestr plaid wedi'i disbyddu, neu os mai ymgeisydd unigol a gaiff ei adalw*”.<sup>2</sup> Gwnaed ymrwymiad i ystyried y mater hwn ymhellach yn rhan o'r gwaith o lunio'r Bil.

### **Sbardunau ar gyfer system adalw**

43. Ystyriodd y Pwyllgor y sbardunau posibl ar gyfer system adalw a faint o fanylion y dylid eu cynnwys mewn deddfwriaeth, gan geisio cydbwysu'r angen i sicrhau eglurder a chysondeb, a galluogi'r Senedd i ymateb i ystod o amgylchiadau a sefyllfaoedd wrth iddynt godi.

44. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn mewn perthynas â sbardunau ar gyfer adalw:

**Argymhelliad 5.** “Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio i roi'r gallu i'r Senedd i adalw Aelod fel sancsiwn ar ei ben ei hun.”

**Argymhelliad 6.** “Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol, yn y Rheolau Sefydlog, i'r pwyllgor cyfrifol lunio canllawiau ar gymhwyso'r broses adalw, gan gynnwys materion a allai arwain at adalw'n awtomatig (os na chaiff ei gynnwys ar wyneb y bil). Dylai'r canllawiau hyn fod yn amodol ar bleidlais gan y Senedd.”

45. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion 5 a 6 mewn egwyddor gan nodi:

*“mae sancsiwn adalw ar ei ben ei hun yn gwyro'n sylweddol o'r system sydd ar waith ar gyfer Senedd y DU ac o'r system arfaethedig sy'n cael ei hystyried mewn perthynas â Senedd yr Alban. Bydd*

---

<sup>2</sup> Atebolrwydd Aelodau Unigol – Adalw, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - tudalen 3

*angen ystyried y mater yn ofalus i sicrhau bod goblygiadau posibl system o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol.*

*Dyna'r rheswm pam fy mod wedi derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad am sancsiwn ar ei ben ei hun yn ogystal â chanllawiau (gweler argymhelliad 6), ac rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i barhau i archwilio ffyrdd o gyflawni hyn.”<sup>3</sup>*

## **Canllawiau ar sancsiynau**

46. Yn rhan o'r ymchwiliad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol, cyhoeddodd y Pwyllgor ail adroddiad o dan y pennawd "Dichell Fwriadol".<sup>4</sup> Yn yr adroddiad hwn, ystyriodd y Pwyllgor fanteision llunio canllawiau ar sancsiynau yng nghyd-destun Argymhelliad 5 yn ei adroddiad ar Adalw – hynny yw, galluogi'r Senedd i adalw Aelod fel sancsiwn ar ei ben ei hun. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai cytuno ar ganllawiau ynghylch sancsiynau a'u cyhoeddi yn sicrhau cysondeb a thryloywder i gymhwyso sancsiynau am gamymddwyn. Byddai canllawiau o'r fath yn galluogi Aelodau i ddeall sut y mae'r Senedd yn ystyried difrifoldeb cymharol gwahanol categorïau o gamymddwyn at ddibenion sancsiynau. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn yn ei adroddiad Dichell Fwriadol:

**Argymhelliad 10** *“Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i sefydlu gweithdrefn sy'n diswyddo a disodli Aelod:*

- *Bod y Senedd yn cytuno ar ganllawiau ynghylch sancsiynau ac yn eu cyhoeddi; ac*
- *Y dylai unrhyw ganllawiau sy'n cynnwys dichell fwriadol fel sail nodi mai dim ond pan gafwyd achos difrifol o dorri'r cod y dylid ei hargymell.”*

47. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan nodi ei bod yn bwysig bod y Senedd yn cytuno ar ganllawiau a'u bod felly yn eiddo i'r Senedd ei hun.

## **Mecaneg y broses adalw**

48. Ystyriodd y Pwyllgor sut y dylid gweithredu'r broses adalw er mwyn ei gwneud mor syml â phosibl i'w deall drwy adeiladu ar arferion etholiadol sefydledig yng Nghymru. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn ynghylch rhoi'r broses adalw ar waith:

---

<sup>3</sup> Atebolrwydd Aelodau Unigol – Adalw, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - tudalen 3

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, [Atebolrwydd Aelodau Unigol – Dichell Fwriadol, Chwefror 2025](#), tudalen 8

**Argymhelliad 7.** *“Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod y broses adalw’n cael ei chynnal ar un diwrnod mewn proses debyg i is-etholiad, gyda digon o sylw i orsafoedd pleidleisio a dim trothwy o ran y nifer sy’n pleidleisio. Dylai pleidleisio drwy’r post a thrwy ddirprwy fod ar gael fel rhan o’r broses hon.”*

**Argymhelliad 8.** *“Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol – a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb – ar oblygiadau ymarferol cynnal pleidlais adalw ar un diwrnod ar draws nifer o orsafoedd pleidleisio mewn etholaeth”.*

**Argymhelliad 9.** *“Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’r gymuned etholiadol i wneud yn siŵr bod y wybodaeth a anfonir ynghylch adalw’n hysbysu pleidleiswyr yn glir o’r rheswm dros adalw, a’r opsiynau sydd ar gael iddynt.”*

49. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion 7, 8 a 9.

### **Penodi aelodau lleyg i’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

50. Yn ei adroddiad Dichell Fwriadol, un o’r mesurau a argymhellodd y Pwyllgor oedd penodi aelodau lleyg i eistedd ar y Pwyllgor i sicrhau safbwyntiau ac arbenigedd annibynnol ac allanol i’r broses safonau, yn benodol yn ystod y cam gwneud penderfyniadau.

51. O ran y mater hwn, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ddaeth i law’r Pwyllgor, ond roedd y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu y byddai cael aelodau lleyg ar y Pwyllgor, yn enwedig wrth ddyfarnu (penderfynu) a yw Aelod wedi torri’r Cod Ymddygiad neu rwymedigaeth i ddatgan, a pha sancsiwn (os o gwbl) y dylid ei argymhell, yn cryfhau’r broses. Awgrymodd sefydliadau sydd â diddordeb mewn democratiaeth, atal llygredigaeth a thryloywder o ran penderfyniadau gwleidyddol wrth y Pwyllgor y byddai cael aelodau lleyg yn ystod cam gwneud penderfyniadau’r broses safonau yn mynd i’r afael â phryderon bod y broses yn un ‘wleidyddol’ ac y gellid efallai ei hystyried yn ‘bleidiol’.<sup>5 6</sup>

52. Cytunodd y Pwyllgor â’r dystiolaeth a ddaeth i law ac amlinellwyd ei resymeg dros ei argymhelliad:

*“Byddai hyn yn sicrhau mwy o annibyniaeth, ac arbenigedd annibynnol, a hynny yn ystod cam gwneud penderfyniadau’r broses safonau, yn ogystal â gwaith polisi ehangach y Pwyllgor Safonau Ymddygiad”.*<sup>7</sup>

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, [Atebolrwydd Aelodau Unigol – Dichell Fwriadol, Chwefror 2025](#), paragraffau 107-108

<sup>6</sup> [Ymateb](#) Transparency International UK i ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol.

<sup>7</sup> Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, paragraff 194.

53. Nododd y pwyllgor ei fod yn dymuno pe byddai model tebyg i'r hyn a roddir ar waith yn San Steffan ar gyfer Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin yn cael ei fabwysiadu.
54. Yn ei adroddiad Dichell Fwriadol, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad 2.** *“Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio er mwyn galluogi'r Senedd i benodi aelodau lleyg i eistedd ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.”*

55. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ac ymrwymodd i gynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol i roi effaith i'r argymhelliad hwn yn y Bil er mwyn sefydlu system adalw.

### **Cyd-destun Senedd y DU**

56. Penodwyd aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau presennol am y tro cyntaf yn 2012. Roedd hyn o ganlyniad i adroddiad yn 2009 ar dreuliau a lwfansau ASau.<sup>8</sup> I ddechrau, penodwyd tri aelod lleyg i'r Pwyllgor Safonau (ynghyd ag 11 o Aelodau etholedig). Yn 2016, newidiwyd hyn i nifer cyfartal o aelodau lleyg ac Aelodau etholedig (cyfanswm o 14 o Aelodau). Yn 2019, rhoddwyd hawliau pleidleisio llawn i aelodau lleyg y pwyllgor. Cynigiwyd y newidiadau hyn gan y Pwyllgor Safonau ac yn ddiweddarach, arweiniodd hyn at newidiadau i'r Rheolau Sefydlog y cytunwyd arnynt gan y Tŷ Cyffredin. Gellir dod o hyd i linell amser a rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros y newidiadau hyn mewn briff ymchwil a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin<sup>9</sup>.

### **Comisiynydd Safonau y Senedd – Ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun**

57. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd allu Comisiynydd Safonau y Senedd (“y Comisiynydd”) i gychwyn ymchwiliad i bryderon ynghylch ymddygiad Aelod neu dorri rhwymedigaeth i ddatgan (ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun), fel ffordd arall o gryfhau'r gyfundrefn safonau yn y Senedd.
58. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion<sup>10</sup> er mwyn sefydlu a fyddai ymddygiad Aelod o'r Senedd yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad, neu ei fod wedi methu â chyflawni rhwymedigaeth i ddatgan. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol, a chaiff y statws hwn ei warchod gan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009<sup>11</sup> (“y Mesur”), a sefydlodd y swydd.

---

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, treuliau a lwfansau Aelodau Seneddol: Cefnogi'r Senedd, diogelu'r trethdalwr (PDF), Tachwedd 2009, Cm 7724, paragraffau 13.66-13.67 ac Argymhelliad 51, t107

<sup>9</sup> Briff Ymchwil Rhif 9047 2022 [CBP-9047.pdf](#)- (tt. 5-6)

<sup>10</sup> [Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd](#)

<sup>11</sup> [Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009](#)

59. Ar ôl cwblhau ymchwiliad, mae'r Comisiynydd yn llunio adroddiad i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'i ymchwiliad, gan gynnwys ei ganfyddiadau, ac mae'n nodi, yn ei farn ef, a yw'r pryderon a godwyd yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad, neu'n fethiant i wneud datganiad, ai peidio.
60. O dan y trefniadau presennol, **dim ond** ar ôl cael cwyn y gall y Comisiynydd ymchwilio i bryder. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Comisiynydd gael mwy o hyblygrwydd ac na ddylai gael ei gyfyngu gan y cyfyngiadau presennol a osodir arno.
61. Yn rhan o'i ymchwiliad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol, daeth tystiolaeth i law'r Pwyllgor gan Transparency International, a gyfeiriodd at newidiadau a wnaed yn 2022 i'r trefniadau yn ymwneud â Chomisiynydd Safonau Seneddol Senedd y DU, sy'n caniatáu iddo gychwyn ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun. Nododd Transparency International fod y newid hwn wedi bod yn welliant.<sup>12</sup>

### **Cyd-destun Senedd y DU**

62. O ran Senedd y DU, y Comisiynydd Safonau Seneddol sy'n cyfateb i Gomisiynydd y Senedd ac mae ganddo'r gallu i ymchwilio i Aelod Seneddol ar ei ysgogiad ei hun. Mae'r trefniadau wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog<sup>13</sup> ac maent yn rhoi disgrisiwn eang i'r Comisiynydd Safonau Seneddol i ymchwilio i faterion y gellid ystyried eu bod yn mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

### **Cyd-destun Cynulliad Gogledd Iwerddon**

63. O ran safonau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, mae rôl y Comisiynydd Safonau yn cyfateb i rôl Comisiynydd y Senedd. Mae pwerau'r Comisiynydd Safonau wedi'u nodi yn Neddff Aelodau'r Cynulliad (Adolygiad Ariannol Annibynnol a Safonau) (Gogledd Iwerddon) 2011.
64. Mae gan y Comisiynydd Safonau bwerau tebyg i'r Comisiynydd Safonau Seneddol yn San Steffan, yn yr ystyr y caiff gychwyn ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun.

### **Cyd-destun Senedd yr Alban**

65. O ran Senedd yr Alban, y Comisiynydd Safonau Moesegol sy'n cyfateb i Gomisiynydd y Senedd. Ar hyn o bryd, nid oes ganddo'r pŵer i gychwyn ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun.

---

<sup>12</sup> Juliet Swann, Transparency International, 25, Y Senedd, [Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, sesiwn dystiolaeth lafar](#), paragraff 16, Tachwedd 2024,

<sup>13</sup> Rheol Sefydlog Rhif 150, [Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin](#), 2021

66. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn yn ei adroddiad Dichell Fwriadol:

**Argymhelliad 6.** *“Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn cael ei ddiwygio i ganiatáu i’r Comisiynydd Safonau gychwyn ymchwiliadau ac i sicrhau bod swyddogaethau’r Comisiynydd Safonau yn cyd-fynd â Seneddau eraill y DU.”*

67. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad a nododd y byddai’n bwrw ymlaen â darpariaethau i roi effaith iddo yn rhan o Fil er mwyn sefydlu system adalw.

### **Mecanwaith apelio ar gyfer proses safonau y Senedd**

68. Yn fesur arall i gryfhau’r broses safonau, ystyriodd y Pwyllgor fecanwaith apelio ar gyfer y broses safonau. Yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol, amlinellodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a’i argymhelliad ynghylch mecanwaith apelio, ond dylid nodi bod y mater hwn hefyd yn ymwneud â’r system adalw.

69. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Sefydliad Ymchwil Cyfansoddiadol a Democrataidd a’r Athro Emyr Lewis (Athro Emeritws yn y Gyfraith – Prifysgol Aberystwyth) ynghylch mecanwaith apelio, er bod hyn yng nghydestun ystyriaeth y Pwyllgor o ddichell fwriadol.

70. Daeth dystiolaeth hefyd i law’r Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a hynny ynghylch ei rôl o ran ymchwilio i bryderon am aelodau etholedig mewn llywodraeth leol. O ran y broses apelio ar gyfer aelodau llywodraeth leol, nododd yr Ombwdsmon fod y seiliau dros apelio yn seiliedig ar benderfyniad naill ai Pwyllgor Safonau’r awdurdod lleol neu benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru, gan gynnwys difrifoldeb y sancsiwn a osodwyd ganddynt.<sup>14</sup>

71. Ar sail y posibilrwydd o gyflwyno system adalw ac mai canlyniad posibl hynny fyddai bod Aelod yn colli ei sedd, daeth y Pwyllgor i’r casgliad y dylid sicrhau mecanwaith apelio ar gyfer proses safonau’r Senedd. Ystyriodd y Pwyllgor a allai Senedd yn y dyfodol ddymuno sefydlu mecanwaith drwy banel barnwrol annibynnol, a chyfeiriodd at Banel Dyfarnu Cymru fel enghraifft o gorff sy’n cyflawni swyddogaeth o’r fath.

72. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad 11** *“Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mecanwaith deddfwriaethol i alluogi unrhyw weithdrefn apelio yn y dyfodol, i’w dwyn i rym gan y Senedd.”*

---

<sup>14</sup> Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, paragraff 98.

73. Wrth ymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor, gan nodi bod y Senedd wedi mabwysiadu mecanwaith apelio yn flaenorol, y cafwyd gwared ohono yn ddiweddarach yn 2022. Nodwyd yn yr ymateb mai mater i'r Senedd fyddai penderfynu pa fecanwaith y byddai'n dymuno ei ddefnyddio, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn archwilio pa ddarpariaethau deddfwriaethol y gallai fod eu hangen i alluogi'r Senedd i roi mecanwaith apelio ar waith.

### **Mecanwaith apelio blaenorol y Senedd**

74. Yn flaenorol, roedd proses safonau'r Senedd yn cynnwys mecanwaith apelio<sup>15</sup>. O dan y broses hon, roedd apeliadau'n cael eu hystyried gan berson annibynnol a chymwysedig yn y gyfraith, ond dim ond ar y sail bod casgliad y Pwyllgor wedi'i seilio ar anghywirdebau ffeithiol arwyddocaol a allai, pe baent yn hysbys, fod wedi arwain at gasgliad gwahanol gan y Pwyllgor, neu fod afreoleidd-dra gweithdrefnol wedi digwydd a amharodd ar hawl yr Aelod i gael gwrandawriad teg.

75. Yn 2022, wrth gynnal adolygiad o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am Aelodau, cytunodd y Pwyllgor, drwy fwyafrif, i gael gwared ar y mecanwaith apelio. Rhoddwyd y rhesymeg dros gael gwared ar y mecanwaith apelio yn adroddiad y Pwyllgor:

*“Ymdrinnir â'r holl gwynion gan y Comisiynydd a chânt eu trafod gan y Pwyllgor, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Am fod gan yr Aelod sy'n destun cwyn yr hawl i fynd i gyfarfod perthnasol y Pwyllgor wyneb yn wyneb, roeddem o'r farn bod digon o gamau ar gyfer mewnbyn a her. At hynny gwnaethom gryfhau cam gwrandawriad llafar y Weithdrefn fel ei bod yn gliriach mai dyma gyfle'r Aelod i godi materion anghydfod ffeithiol neu bryder gweithdrefnol mewn perthynas ag ymchwiliad ac adroddiad y Comisiynydd. Hefyd, caiff y Pwyllgor gyfeirio materion a godir bryd hyn yn ôl at y Comisiynydd i'w trafod ymhellach.”*<sup>16</sup>

### **Cyd-destun Senedd y DU**

76. O ran Senedd y DU, mae'r system safonau ar gyfer Aelodau Seneddol yn cynnwys mecanwaith apelio. Ers 2022, caiff apeliadau eu clywed gan y Panel Arbenigol Annibynnol, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2020 i ystyried cwynion am Aelodau Seneddol a oedd yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. Nid yw'r Panel Arbenigol Annibynnol yn ymdrin ag apeliadau mewn perthynas â'r materion hyn, ond yn hytrach, **dim ond**

---

<sup>15</sup> [GWEITHDREFN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION YN ERBYN AELODAU O'R CYNULLIAD](#)

<sup>16</sup> [Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, Adolygiad o'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, Gorffennaf 2022, t.2](#)

apeliadau sy'n ymwneud ag achosion Cod Ymddygiad, y gwrandewir arnynt yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor Safonau.

77. Mae rôl y Panel Arbenigol Annibynnol o ran apeliadau fel a ganlyn:

*“The Panel does not re-investigate the allegations during an appeal, nor does it take fresh decisions on the basis of the investigation. The role of the Panel in an appeal is to review the decisions taken by the Committee”<sup>17</sup>.*

## Dichell Fwriadol

78. Ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o greu trosedd newydd yn ymwneud ag ymgeiswyr ar gyfer etholiadau i'r Senedd ac Aelodau'r Senedd.

79. Yn y dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor roedd consensws, pe bai unrhyw fecanweithiau newydd i fynd i'r afael â dichell yn cael eu cyflwyno, y byddai angen diffinio 'dichell fwriadol' yn glir wrth ddrafftio unrhyw deddfwriaeth. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn o ran diffinio dichell fwriadol mewn deddfwriaeth:

**Argymhelliad 1.** *“Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor ar ddiffiniadau cysylltiedig o fewn deddfwriaeth bresennol, ddiffinio dichell fwriadol yn glir mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau'r Senedd; a'i fod yn cael ei ailadrodd mewn unrhyw Reolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig.”*

80. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor a nododd y byddai angen ei ystyried yn fanylach.

## Cwmpas

81. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau amrywiol ynghylch a ddylid cyflwyno un system a fyddai'n cynnwys ymgeiswyr ac Aelodau. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai rhoi un system ar waith yn gymhleth. Argymhellwyd felly y dylid defnyddio dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer y ddwy rôl, gan gydnabod eu bod yn gyfansoddiadol wahanol. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn ynghylch ymgeiswyr:

**Argymhelliad 3.** *“Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu adran 75 o Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (sy'n efelychu'r ddarpariaeth a gynhwysir yn adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd) i'w gwneud yn drosedd i ymgeisydd neu unrhyw asiant etholiadol wneud neu gyhoeddi datganiadau/gwybodaeth sy'n camarwain drwy ddichell fwriadol at ddibenion effeithio ar sut y rhoddir pleidlais mewn etholiad.”*

---

<sup>17</sup> Paragraff 14 o'r Canllawiau i apelwyr mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad

82. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond nododd yn ei hymateb i'r adroddiad<sup>18</sup> nad oedd o'r farn y gellid ehangu erthygl 75 o Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") i greu'r drosedd newydd. Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol y sylwadau a ganlyn mewn ymateb i'r argymhelliad:

*"Nid addasiad o'r drosedd bresennol o ddatganiadau anwir ynghylch ymgeiswyr yw'r hyn sydd wedi'i nodi gan y pwyllgor, ond yn hytrach cyflwyno trosedd newydd sy'n wahanol mewn nifer o agweddau sylfaenol, gan gynnwys cwmpas y troseddau, pwy all eu cyflawni a'r niwed y maent yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ddatblygu trosedd arfaethedig, yn unol â'r hyn a ragwelir gan y Pwyllgor, a fydd yn gofyn am asesiad o'r effeithiau posibl ar y System Gyfiawnder ac ar ein trefniadau ehangach ar gyfer cyfraith etholiadol ar gyfer etholiadau Cymru. Credaf y dylai trosedd arfaethedig fod yn destun ymgynghoriad pellach, sy'n golygu nad yw'n ymarferol ei chynnwys yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau terfynol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026."*

83. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad 4.** *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio i nodi y caiff unrhyw Orchymyn Cynnal Etholiadau a wneir o dan adran 13 gynnwys darpariaeth ar gyfer dichell fwriadol, gan sicrhau bod dichell fwriadol yn fater sy'n cael ei ystyried yn y gorchymynion cynnal etholiadau a wneir ar gyfer etholiadau yn y dyfodol."*

84. Nododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan ddatgan y byddai'n ystyried a oedd angen diwygio adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wrth fwrw ymlaen â'r gwaith mewn ymateb i argymhelliad 3.

85. Argymhellodd y Pwyllgor mai'r broses safonau (yn amodol ar ei chryfhau yn sgil ei argymhellion 2 a 6 a chyflwyno system adalw) oedd y mecanwaith priodol i fynd i'r afael â dichell fwriadol gan Aelodau o'r Senedd, o ystyried y gallai'r sancsiwn eithaf, sef adalw, arwain at ddiswyddo Aelod o'i sedd.

---

<sup>18</sup> [Atebolrwydd Aelodau Unigol – Dichell Fwriadol Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad](#)

## 3.2 Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

86. Bydd Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) yn cyflwyno system adalw sy'n caniatáu i etholwyr ddwyn Aelodau i gyfrif yn uniongyrchol. Bydd y Bil hefyd yn cryfhau elfennau o'r weithdrefn bresennol ynghylch safonau Aelodau'r Senedd.

### Yr effaith y bwriedir i'r Bil ei chael: beth mae'r Bil yn ei wneud

87. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Sefydlu pŵl adalw er mwyn cynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd.
- Creu dau ddigwyddiad sbardun a fydd yn cychwyn proses adalw, fel a ganlyn:
  - Aelod yn cael ei euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig ac yn cael dedfryd o garchar neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth (a honno'n ddedfryd nad yw'n arwain at anghymhwysu awtomatig); neu
  - Y Senedd yn cytuno i wneud Aelod yn destun pŵl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor sy'n cynnwys argymhelliad i wneud yr Aelod yn destun pŵl adalw.
- Gofyniad bod y Pwyllgor yn llunio canllawiau i bennu pa bryd y dylai'r sancsiwn adalw gael ei argymhell gan y Pwyllgor, gan gynnwys gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.
- Dyletswydd ar Lywydd Senedd Cymru i bennu dyddiad ar gyfer y pŵl adalw ar ôl cael ei hysbysu bod digwyddiad sbardun wedi digwydd.
- Diwygio ac ychwanegu at swyddogaethau presennol y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd");
  - i'w alluogi i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun i achosion o Aelod yn torri rhwymedigaeth, neu bryderon am ymddygiad Aelod.
  - i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio i hunanatgyfeiriad gan Aelod o'r Senedd at y Comisiynydd.
  - i'w alluogi i gymryd tystiolaeth drwy gyswllt fideo a sain byw.
  - i'w alluogi i'w gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth mewn ysgrifen.
  - i'w alluogi i ddyroddi hysbysiadau mewn perthynas â thystiolaeth a cheisiadau am ddogfennau yn electronig ac i gasglu gwybodaeth yn electronig.
  - i ddarparu ar gyfer gorfodi drwy drosedd mewn cysylltiad â phwerau newydd y Comisiynydd ynghylch tystiolaeth.
  - i ddarparu i'r Comisiynydd allu gweinyddu llw i gyfieithydd neu ddehonglydd, a'i gwneud yn ofynnol i berson o'r fath dyngu'r llw.

- i alluogi'r Comisiynydd i ddatgelu a chyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig am ymchwiliad cyn i'w adroddiad ar yr ymchwiliad gael ei gyhoeddi.
- Meini prawf anghymhwysra ychwanegol ynghylch pwy y gellir ei benodi i fod yn Gomisiynydd.
- Gofyniad bod rhaid i bob Senedd sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol ac amserlen y mae rhaid iddynt gael eu penodi yn unol â hi.
- Gofyniad i'r Senedd benodi o leiaf un aelod lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.
- Meini prawf anghymhwysu ynghylch pwy na ellir ei benodi'n Aelod lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.
- Darpariaeth i alluogi'r Senedd i gyflwyno mecanwaith apelio yn rhan o'r broses safonau.
- Dyletswydd ar Lywydd Senedd Cymru i gyflwyno cynnig i naill ai sefydlu Pwyllgor o'r Senedd neu i roi'r gorchwyl i Bwyllgor presennol ystyried a ddylai cod ymddygiad Aelodau fod yn gymwys i ymddygiad Aelod yn ystod y cyfnod pan oedd yn ymgeisydd ar gyfer etholiad i'r Senedd. Os bydd pwyllgor yn cynnal yr ymchwiliad ac yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu ymateb i'r adroddiad hwnnw.
- Diwygio pŵer Gweinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau i'r Senedd. Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch Dichell Fwriadol, mae'n cyflwyno, yn benodol, ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o feithiau anwir.

## **Sefydlu proses adalw**

88. Mae'r Bil yn darparu'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ofynnol i sefydlu proses adalw. Rhagwelir y bydd Pôl Adalw yn debyg i etholiad cyffredinol y Senedd o fewn un etholaeth, hynny yw:


- Ei fod yn bôl undydd
- Amseroedd y cyfnod 'ymgyrchu' a'r pôl, gan gynnwys amseroedd cau'r gofrestr etholiadol.
- Gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys y nifer ohonynt a'u hamseroedd agor.
- Opsiynau ar gyfer pleidleisio absennol (drwy ddirprwy a thrwy'r post).

89. Fodd bynnag, bydd rhai pethau penodol yn wahanol i etholiadau'r Senedd, gan gynnwys:

- Bydd y bleidlais yn darparu un cwestiwn a dau opsiwn, sef cadw'r Aelod neu ei ddiswyddo.
- Ni fydd 'ymgeiswyr', gan fod hyn yn ymwneud ag adalw Aelod presennol o'r Senedd neu beidio (bydd rheoliadau dilynol yn sefydlu'r fframwaith rheoleiddio ariannol).

### **Trosolwg o'r broses adalw arfaethedig**

90. Mae'r **siart lif** isod yn rhoi trosolwg o sut y rhagwelir y byddai'r Pôl Adalw yn cael ei gynnal.



## Cychwyn Pol Adalw

91. Rhan gyntaf unrhyw system adalw yw'r camau a'r digwyddiadau sy'n golygu bod yr Aelod o'r Senedd yn gymwys i gael ei adalw, sy'n sbarduno'r broses adalw, a'r hysbysiad cychwynnol o'r broses honno. Prif elfennau'r rhan hon o'r broses felly yw'r digwyddiadau sy'n sbarduno'r broses adalw (hynny yw, camymddwyn yr Aelod sy'n arwain at ddechrau'r broses) a hysbysiad y Llywydd. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dau 'ddigwyddiad sbardun' fel a ganlyn:

- Yr Aelod yn cael ei euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig ac yn cael dedfryd o garchar neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth (a honno'n ddedfryd nad yw'n arwain at anghymhwysio awtomatig); neu
- Y Senedd yn cytuno i wneud Aelod yn destun pŵl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor sy'n cynnwys argymhelliad i wneud yr Aelod yn destun pŵl adalw.

92. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol, os caiff Aelod o'r Senedd, ar ôl dod yn Aelod, ei euogfarnu o drosedd yng Nghymru a Lloegr a'i ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth, bod y llys sy'n gosod y ddedfryd neu'r gorchymyn mewn perthynas â'r euogfarn yn rhoi gwybod i'r Llywydd am yr euogfarn a'r ddedfryd neu'r gorchymyn. Os caiff yr euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn ei wrthdroi ar apêl (neu os caiff y ddedfryd ei lleihau i un nad yw'n bodloni'r trothwy), rhaid i'r llys y cyflwynwyd yr apêl iddo neu y trosglwyddwyd yr apêl iddo gan lys arall roi gwybod i'r Llywydd am y ffaith honno.

93. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor lunio 'canllawiau adalw' drafft am y materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried wrth benderfynu a ddylid argymhell gwneud Aelod yn destun pŵl adalw. Rhaid i'r Pwyllgor gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau drafft hynny, ac yn dilyn yr ymgynghori rhaid i'r canllawiau gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd. Rhaid i'r Pwyllgor ystyried a ddylid cynnwys yn y canllawiau enghreifftiau o ymddygiad neu fathau o ymddygiad a allai arwain at argymhelliad gan y Pwyllgor i wneud Aelod o'r Senedd yn destun pŵl adalw.

94. Ni chaiff y Pwyllgor argymhell gwneud Aelod yn destun pŵl adalw oni bai bod y Senedd wedi dyroddi canllawiau adalw. Cyn i'r Pwyllgor argymhell gwneud Aelod yn destun pŵl adalw, rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i'r canllawiau adalw.

95. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i bennu dyddiad ar gyfer pŵl adalw a rhoi gwybod i'r swyddog canlyniadau etholaethol perthnasol. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion ynghylch y digwyddiad sbardun. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar swyddog canlyniadau etholaethol i roi hysbysiad cyhoeddus ynghylch y pŵl adalw.

## Defnyddio'r term 'Pôl Adalw'

96. Rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor y dylid cyfeirio at y broses fel 'pleidlais diswyddo a disodli' yn hytrach nag 'adalw'. Yn ei hymateb i'r argymhelliad, cydnabu Llywodraeth Cymru y byddai'r term "deiseb adalw" yn ddryslyd ac yn anghywir. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai "pleidlais diswyddo a disodli" hefyd fod yn anghywir gan na fydd y broses, o bosibl yn arwain at ddiswyddo Aelod ac, hyd yn oed pe byddai'n arwain at ei ddiswyddo, ni fydd y broses ei hun yn ymwneud â disodli. Byddai unrhyw swydd wag yn cael ei llenwi drwy'r prosesau arferol, ac ni fyddai'n digwydd ym mhob achos, er enghraifft pe bai'r rhestr plaid wedi'i disbyddu, neu pe bai ymgeisydd unigol yn cael ei ddiswyddo.
97. Y rhesymau o blaid defnyddio "pôl adalw" yw bod hyn yn ffordd sefydledig o ddisgrifio diswyddo gwleidydd sy'n aelod yn barod, drwy gynnal digwyddiad etholiadol. Ystyriwyd defnyddio'r elfen "pleidlais" o'r disgrifiad; fodd bynnag, ar ôl pwysu a mesur, barnwyd bod y term "pôl adalw" yn fwy priodol. Mewn cyfraith etholiadol mae "pleidlais" fel arfer yn cyfeirio at y dull o gynnal pôl, tra bod y weithred gyfunol o bleidleisio fel arfer yn cael ei ddisgrifio fel "pôl".

## Proses Un Cam

98. Argymhellodd y Pwyllgor broses un cam, gan gydnabod y bydd y system etholiadol yng Nghymru yn sylweddol wahanol, a bod angen dull wedi'i deilwra. O dan system etholiadol newydd y Senedd, bydd unrhyw swydd wag sy'n codi naill ai'n cael ei llenwi gan y person cymwys nesaf ar restr yr un blaid neu bydd yn parhau i fod yn wag. Nid oes darpariaeth ar gyfer is-etholiadau.
99. Unwaith y bydd y broses adalw yn cael ei rhoi ar waith yn sgil 'digwyddiad sbardun', fel y cyfeirir ato ym mharagraff 90, caiff barn y cyhoedd ei phrofi unwaith er mwyn penderfynu a ddylid adalw'r aelod. Bydd y cwestiwn hwn ar gyfer pleidleiswyr yn ddewis deuaidd o ran a ddylid diswyddo'r aelod neu ei gadw. Os penderfynir y dylid adalw'r Aelod, bydd y sedd yn dod yn wag a bydd y broses arferol ynghylch seddi gwag yn cael ei rhoi ar waith.

## Cynnal y Pôl

100. Mae'r Bil yn nodi bod rhaid cynnal pôl adalw drwy bleidlais gudd a bod rhaid i bob papur pleidleisio gael ei ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
101. Argymhellodd y Pwyllgor bod "Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall." Awgrymodd ymateb cychwynol Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn y byddai cynnwys papur pleidleisio yn debygol o gael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad y byddai cynnwys y cwestiwn a'r

ateb a fyddai'n ymddangos ar bapur pleidleisio ar wyneb y Bil yn sicrhau pwynt cyfeirio defnyddiol i egluro sut y byddai'r broses Pôl Adalw yn cael ei chynnal. Byddai hefyd yn darparu cysondeb a sicrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r broses.

102. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch ffurf y cwestiwn a'r ateb er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn gryno, wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir, yn defnyddio brawddegau byrion, ac yn osgoi defnyddio jargon neu dermau technegol na fyddai'n hawdd i'r mwyafrif o bobl eu deall.

### **Terfynu pôl adalw yn gynnar**

103. Mae'r Bil yn nodi nifer o ddigwyddiadau terfynu cynnar a fyddai'n arwain at derfynu'r pôl adalw cyn i'r canlyniad gael ei gyhoeddi. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys y Llywydd yn cynnig diwrnod ar gyfer cynnal pleidlais mewn etholiad cyffredinol eithriadol o fewn y 6 mis nesaf, bod sedd yr Aelod o'r Senedd yn dod yn wag neu fod yr euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn yn erbyn yr Aelod o'r Senedd, a sbardunodd y pôl adalw, yn cael ei wrthdroi ar apêl.

### **Canlyniad pôl adalw**

104. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y swyddog canlyniadau etholaethol i bennu canlyniadau'r pôl adalw, i gyhoeddi canlyniadau'r pôl adalw ac, yn ddibynol ar ganlyniad y pôl adalw, i ddatgan bod yr Aelod sy'n destun y pôl adalw naill ai'n cael ei ddiswyddo neu'n cadw ei swydd fel Aelod. Os canlyniad y pôl adalw yw y bydd yr Aelod o'r Senedd yn cadw ei swydd, ni chymerir unrhyw gamau pellach. Os canlyniad y pôl adalw yw bod yr Aelod o'r Senedd yn cael ei ddiswyddo, bydd swydd wag yn cael ei chreu a'i llenwi yn unol â'r gweithdrefnau presennol.

### **Hawl i bleidleisio**

105. Yr etholwyr ar gyfer y pôl adalw fyddai'r etholwyr fel y byddent pe bai'r pôl ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn cael ei gynnal ar y diwrnod hwnnw. Hynny yw, y rhai sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yn yr etholaeth honno sy'n cynnwys yr un cyfyngiadau, amseroedd cau ac ati. Mae dull gweithredu cyfatebol yn cael ei ddefnyddio gan y DU<sup>19</sup> ac yn cael ei gynnig ar gyfer yr Alban<sup>20</sup>.

<sup>19</sup> [Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015](#), adran 10.

<sup>20</sup> [Bil Senedd yr Alban \(Adalw a Diswyddo Aelodau\) fel y'i cyflwynwyd](#), adran 10.

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 12, Hawl i bleidleisio*

*(1) Y personau sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad o Aelodau o'r Senedd (neu Aelod o'r Senedd) mewn etholaeth yn y Senedd yw'r rhai sydd, ar ddiwrnod y bleidlais—*

*(a) byddai ganddynt hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol mewn ardal etholiadol a gynhwysir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn etholaeth y Senedd..., a*

*(b) sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth y Senedd.*

...

106. Rhagwelwyd na fyddai newidiadau i ffiniau etholaethau'r Senedd yn dod i rym yn ystod tymor y Senedd. Dylid cynnal polau adalw felly ar sail yr un ffiniau etholaethol ag y cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol blaenorol y Senedd. Ni fydd newidiadau i fannau a dosbarthau pleidleisio mewnol yn ystod y cyfnod hwnnw yn effeithio ar weithrediad pŵl adalw ar lefel etholaethol.

### **Swyddogion Canlyniadau Etholaethol**

107. O ran pŵl adalw yn un o etholaethau'r Senedd, mae'r Bil yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y swyddog canlyniadau etholaethol i wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i gynnal y pŵl adalw yn effeithiol. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer galluogi swyddog canlyniadau etholaethol i benodi un neu fwy o ddirprwyon.

108. Yn yr un modd â digwyddiadau etholiadol eraill yng Nghymru, dylai person penodol fod yn gyfrifol am y gwaith o gynnal y pŵl yn effeithiol. Mae'r ddeddfwriaeth adalw mewn rhannau eraill o'r DU yn diffinio swydd newydd swyddog deisebau, er mai'r swyddog canlyniadau fyddai'n gwneud y swydd honno wedyn, ond nid yw'r manteision o wneud hynny'n glir yng nghyddestun Cymru gan y bydd y pŵl adalw yng Nghymru yn debyg i etholiad, ond nid yw hynny'n wir am ddeiseb adalw. Bwriad y polisi yw y bydd Pŵl Adalw mor debyg â phosibl i etholiad i'r Senedd, ac felly bydd y swyddog canlyniadau etholaethol mor gyfarwydd â phosibl eisoes â'r broses a'r etholaeth.

109. Rhagwelir y bydd rôl Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar gyfer polau adalw yn debyg i'w rôl yn etholiadau'r Senedd. Er enghraifft, mae [Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol](#) ar gyfer swyddogion canlyniadau etholaethol yn nodi bod y rôl yn cynnwys y canlynol:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth a ymleddir
- gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer yr etholaeth a ymleddir
- annog cyfranogiad
- cyhoeddi'r datganiad o'r sawl a enwebwyd a'r hysbysiad o bŵl neu'r etholaeth a ymleddir

- darpariaeth a chyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- penodi staff gorsafoedd pleidleisio
- cynnal y pŵl
- rheoli'r broses bleidleisio drwy'r post
- gwirio a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholaeth a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a ymleddir sy'n perthyn i'r etholaeth
- datgan canlyniad yr etholaeth.

### **Cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Etholiadol.**

110. Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau yng Nghyfnod 1, diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2 i ddod â phleidleisiau adalw o fewn cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Etholiadol ("Y Bwrdd"). Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth a fydd yn dod â phleidleisiau adalw o fewn swyddogaethau gweinyddu etholiadol y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys bod y Bwrdd yn gallu cyfarwyddo swyddogion canlyniadau mewn cysylltiad â phleidleisiau adalw.

### **Rheoliadau ynghylch polau adalw**

111. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cynnal polau adalw. Darperir rhagor o fanylion am y pŵer hwn yn nhabl 5.1.

### **Rhoi sail statudol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

112. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w gwneud yn ofynnol i bob Senedd sefydlu, yn un o'i phwyllgorau, bwyllgor a elwir yn Bwyllgor Safonau Ymddygiad (neu enw arall a bennir gan y Senedd). Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau'r pwyllgor sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau. Bydd sicrhau bod rôl a chylch gwaith y Pwyllgor wedi'u nodi mewn statud yn cryfhau'r ymrwymiad o ran y pwys a roddir ar safonau ac atebolrwydd yn ogystal â sicrhau trefniant effeithiol ar gyfer cyflawni'r argymhelliad i gyflwyno aelodau llewg. Bydd yn caniatáu ar gyfer gosod paramedrau clir ynghylch yr hyn fydd rôl a chylch gwaith Aelod llewg pan fydd y Pwyllgor yn arfer ei swyddogaethau.

113. Mae ymddygiad cynrychiolwyr etholedig a'r safonau y maent yn cael eu dwyn i gyfrif yn eu cylch yn faterion pwysig iawn. O ganlyniad i ymchwiliad y Pwyllgor ar atebolrwydd aelodau unigol a'r sylw dilynol yn y wasg, mae safonau Aelodau'r Senedd wedi dod yn fater hyd yn oed yn fwy amlwg. Mae rhoi sail statudol i'r Pwyllgor a'i wneud, felly, yn bwyllgor gorfodol y mae'n rhaid i'r Senedd ei sefydlu yn debygol o godi ei broffil yn y Senedd ac ymysg y cyhoedd yng Nghymru.

114. Mae sefydlu'r Pwyllgor yn bwyllgor gorfodol mewn statud hefyd yn galluogi gosod dyletswyddau yn uniongyrchol ar y Pwyllgor pan ystyrir bod

hynny'n hanfodol i roi'r system newydd o adalw Aelodau o'r Senedd ar waith yn effeithiol.

115. Yr arfer sefydledig yw bod gweithdrefnau a phrosesau'r Senedd yn faterion iddi benderfynu arnynt ei hun. Fodd bynnag, er mwyn rhoi effaith i amcanion polisi'r ddeddfwriaeth hon, ystyrir ei bod yn bwysig bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth ynghylch materion penodol mewn perthynas â phenodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Mae darpariaeth wedi'i chynnwys fel bod modd i swyddogaethau'r Pwyllgor o ran ymddygiad Aelodau o'r Senedd gael eu pennu yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i'r Pwyllgor gael nifer yr aelodau a bennir gan y Rheolau Sefydlog, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn aelod lleyg.
116. Er mwyn diogelu swyddogaethau'r Pwyllgor ar gyfer y dyfodol, mae darpariaeth wedi'i chynnwys i alluogi sefydlu is-bwyllgor, ynghyd â'r posibilrwydd i'r is-bwyllgor hwnnw wrando ar apeliadau Aelodau yn rhan o'r broses safonau, pe bai'r Senedd yn dewis mabwysiadu hyn yn fecanwaith ar gyfer unrhyw gam apêl. Rhagwelir y bydd angen aelodau lleyg i gyflawni rôl os bydd y Senedd neu'r Pwyllgor yn penderfynu y dylid sefydlu is-bwyllgor o'r fath.

### **Nifer yr aelodau lleyg a chwmpas y rôl**

117. Yn ei adroddiad, roedd y Pwyllgor yn rhag-weld y byddai aelodau lleyg yn sicrhau elfen o annibyniaeth ac arbenigedd i swyddogaeth gwneud penderfyniadau y Pwyllgor. Bydd cwmpas swyddogaeth yr aelodau lleyg felly yn cael ei gyfyngu i swyddogaethau'r Pwyllgor ond gan eithrio unrhyw swyddogaeth craffu ar ddeddfwriaeth y gall y Pwyllgor ymgymryd â hi. Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi o leiaf un aelod lleyg i eistedd ar y Pwyllgor ac unrhyw is-bwyllgor posibl.
118. Nod y gallu i benodi aelodau lleyg i unrhyw is-bwyllgor yw darparu ar gyfer y posibilrwydd yn y dyfodol y byddai'r Senedd yn dewis defnyddio'r mecanwaith hwn fel cam apelio'r broses safonau.
119. Mater i'r Senedd fydd penderfynu faint o aelodau lleyg y dylid eu penodi i'r Pwyllgor, yn debyg i allu'r Senedd i benderfynu ar faint o Aelodau etholedig a ddylai fod ar unrhyw bwyllgor arall. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi o leiaf un Aelod lleyg i'r Pwyllgor erbyn Tachwedd 2027 fan bellaf (i ganiatáu i brosesau recriwtio gael eu cynnal). Mae'r Bil yn nodi na ddylai nifer yr aelodau lleyg sydd i'w penodi fod yn fwy na nifer yr Aelodau etholedig ar y Pwyllgor. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnal cydbwysedd rhwng y rôl bwysig a fydd gan aelodau lleyg o ran sicrhau annibyniaeth a phersbectif allanol ar gyfer ystod o swyddogaethau'r Pwyllgor, a phriodoldeb sicrhau na chaiff pwyllgor o'r Senedd ei sefydlu mewn ffordd a allai arwain at gael mwy o aelodau anetholedig nag o Aelodau'r Senedd.

120. Mae'r Bil yn amlinellu paramedrau rôl yr aelod lleyg. Rhaid i aelodau lleyg gael hawliau llawn i gymryd rhan ac i bleidleisio mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau. Caniateir iddynt gael hawliau o'r fath mewn perthynas â swyddogaethau eraill y Pwyllgor megis ymchwiliadau polisi, ond ni chânt fod â'r hawliau hynny mewn perthynas â chraffu ar ddeddfwriaeth.
121. Bwriad y darpariaethau uchod yw sicrhau elfen o annibyniaeth i gam gwneud penderfyniadau y broses safonau ac i alluogi defnydd llawn o arbenigedd yr aelodau lleyg pan fydd y Pwyllgor yn ystyried materion polisi, gan gynnwys, er enghraifft, adolygu cynnwys y Cod Ymddygiad ac awgrymu newidiadau iddo.
122. Mae'r Bil yn eithrio aelodau lleyg rhag cymryd rhan yn y gwaith craffu ar ddeddfwriaeth a drosglwyddir i'r Pwyllgor gan y Pwyllgor Busnes. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y byddai'n amhriodol i aelodau lleyg fod yn rhan o'r gwaith craffu ar ddeddfwriaeth gan nad ydynt wedi'u hethol, ac mai dim ond Aelodau etholedig, gan gynrychioli eu hetholwyr ac yn eu rôl fel deddfwyr, a ddylai ymwneud â llunio deddfwriaeth a chraffu arni, fel y rhagwelwyd pan roddwyd pwerau deddfu sylfaenol llawn i'r Senedd yn dilyn refferendwm 2011.
123. Mae cyfnod swydd aelod lleyg i'w bennu gan y Pwyllgor ond rhaid iddo fod am gyfnod penodol nad yw'n fwy na 6 blynedd. Mae hyn yn golygu, ar adeg diddymu'r Senedd, y caiff penodiad aelodau lleyg barhau i'r Senedd nesaf a hyd nes bod eu cyfnod swydd wedi dod i ben, fel yr amlinellir yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Y rhesymeg dros hyn yw osgoi sefyllfa, lle unwaith y caiff y Pwyllgor ei sefydlu ym mhob tymor newydd y Senedd drwy ethol Cadeirydd a phenodi Aelodau etholedig iddo, nad oes unrhyw oedi cyn iddo ddechrau ei waith oherwydd nad oes cworwm. Gallai hyn ddigwydd pe bai angen i'r Pwyllgor aros i benodi aelodau lleyg ar ddechrau tymor pob Senedd. Byddai hefyd yn darparu rhywfaint o brofiad a pharhad i'r Pwyllgor rhwng y Seneddau ac yn osgoi beichiau gweinyddol diangen ar ddechrau pob tymor i benodi'r aelodau lleyg. Yn ymarferol, byddai'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Bil yn caniatáu i aelodau lleyg barhau â'u swydd y tu hwnt i ddiwedd tymor y Senedd, ond mewn gwirionedd ni fyddent yn chwarae unrhyw rôl yn y Pwyllgor hyd nes y byddai'n dechrau ar ei waith eto yn dilyn etholiad.
124. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi a diswyddo aelodau lleyg a bydd yn galluogi'r Rheolau Sefydlog i wneud darpariaeth ynghylch telerau ac amodau penodi. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi'r meini prawf ynghylch pwy fydd wedi'i anghymhwysu rhag cael ei benodi'n aelod lleyg, gan gynnwys:

- Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o'r Senedd.
- Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Dŷ'r Cyffredin.
- Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

- Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Senedd yr Alban
- Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.
- Comisiynwyr heddlu a throseddu presennol neu gyn-gomisiynwyr heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru neu yn Lloegr.
- Aelodau presennol neu gyn-aelodau o Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru.
- Person sy'n dal swydd Cwnsler Cyffredinol ar hyn o bryd, neu sydd wedi dal y swydd o'r blaen, pan na fo'r person hwnnw yn Aelod o'r Senedd hefyd.
- Aelodau presennol o gyngor cymuned yng Nghymru.
- Person sydd ar hyn o bryd yn dal swydd sy'n anghymhwysu yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A, ac eithrio'r swyddi barnwrol.

### **Adroddiad ar gymhwyso cod ymddygiad y Senedd i ymgeiswyr etholiadol**

125. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Lywydd Senedd Cymru i gyflwyno cynnig i naill ai sefydlu Pwyllgor o'r Senedd neu i roi'r gorchwyl i Bwyllgor presennol gynnal ymchwiliad i'r cwestiwn a ddylai cod ymddygiad Aelodau fod yn gymwys yn ystod y cyfnod y datgenir bod personau yn ymgeiswyr mewn etholiad i'r Senedd ac felly y gellir ystyried unrhyw ymddygiad yn ystod y cyfnod hwnnw yn rhan o broses safonau'r Senedd, pe bai ymgeisydd wedyn yn cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd.
126. Mae'n ofynnol i Lywydd Senedd Cymru gyflwyno'r cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn deddfu'r Bil, ond mewn unrhyw achos heb fod yn hwy na 6 mis o'r dyddiad hwnnw.
127. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth, os yw'r Senedd yn cynnal adolygiad o'r fath, ac y gosodir adroddiad gerbron y Senedd wedi hynny, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad sy'n nodi eu hymateb i'r adroddiad.

### **Ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun**

128. Yn ei adroddiad Dichell Fwriadol, mae'r Pwyllgor wedi cynnwys yr argymhelliad a ganlyn ynghylch galluogi Comisiynydd Safonau y Senedd i gychwyn ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun.

**Argymhelliad 6.** *“Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn cael ei ddiwygio i ganiatáu i'r Comisiynydd Safonau gychwyn ymchwiliadau ac i sicrhau bod swyddogaethau'r Comisiynydd Safonau yn cyd-fynd â Seneddau eraill y DU.”*

129. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhelliad hwn ar y sail mai mater i'r Senedd yn y pen draw yw rôl y Comisiynydd. Mae'r Bil yn

diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 i roi pŵer i'r Comisiynydd i gychwyn ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun.

130. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer galluogi'r Comisiynydd i ymchwilio i ymddygiad Aelodau o'r Senedd, p'un a yw wedi cael cwyn ai peidio.
131. Gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad os oes ganddo sail resymol dros amau bod ymddygiad Aelod o'r Senedd wedi methu â chydymffurfio â gofyniad darpariaeth berthnasol, ar adeg berthnasol, a'i fod wedi'i fodloni bod unrhyw amodau eraill, y mae'n rhaid eu bodloni cyn cychwyn ymchwiliad a allai fod wedi'i ragnodi mewn Rheolau Sefydlog neu reolau a bennir yn y Bil, wedi'u bodloni.
132. Unwaith y bydd y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i ymddygiad Aelod o'r Senedd, rhaid iddo gynnal yr ymchwiliad yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog ac unrhyw reolau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau a fabwysiadwyd gan y Senedd. Rhaid iddo hefyd adrodd wrth y Senedd am ganlyniad yr ymchwiliad.

### **Diwygiadau i'w gwneud i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009**

133. Mae'r Bil yn cynnwys diwygiadau i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur") mewn ymateb i ddiwygiadau a awgrymwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ym mis Mai 2025. Mae'r Bil yn diwygio'r Mesur i wneud y canlynol:

- egluro y bydd hunanatgyfeiriad gan Aelod at y Comisiynydd yn cael ei drin yr un fath â phe bai cwyn wedi'i derbyn ac felly y bydd swyddogaethau'r Comisiynydd sy'n gymwys i gwynion yn gymwys hefyd i hunanatgyfeiriad.
- Ymestyn y meini prawf anghymhwystra o ran pwy y gellir ei benodi i fod yn Gomisiynydd i gynnwys:
  - Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o'r Senedd.
  - Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Dŷ'r Cyffredin.
  - Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi
  - Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Senedd yr Alban
  - Aelodau presennol neu gyn-Aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.
  - Comisiynwyr heddlu a throseddu presennol neu gyn-gomisiynwyr heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru neu yn Lloegr.
  - Aelodau presennol neu gyn-aelodau o Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru.
  - Aelodau presennol o gyngor cymuned yng Nghymru.
  - Person sydd wedi bod yn gynghorydd cymuned yng Nghymru o fewn y cyfnod o ddwy flynedd cyn ei benodi.

- Person a gyflogir ar hyn o bryd, neu a gyflogwyd yn flaenorol o fewn y ddwy flynedd cyn ei benodi, gan Aelod o'r Senedd neu blaid wleidyddol gofrestredig.
- galluogi'r Comisiynydd i gymryd tystiolaeth drwy gyswllt fideo a sain byw.
- galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol rhoi tystiolaeth mewn ysgrifen.
- galluogi'r Comisiynydd i ddyroddi hysbysiadau mewn perthynas â thystiolaeth a cheisiadau am ddogfennau yn electronig, a'i alluogi i gasglu tystiolaeth yn electronig.
- ymestyn y darpariaethau gorfodi presennol, gan gynnwys y troseddau mewn perthynas â chydymffurfio â hysbysiadau a ddyroddwyd, er mwyn cynnwys hysbysiadau a ddyroddwyd mewn cysylltiad â phwerau newydd y Comisiynydd.
- galluogi'r Comisiynydd i weinyddu llw i gyfieithydd neu ddehonglydd a phŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath dyngu'r llw.
- galluogi'r Comisiynydd i ddatgelu a chyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig am ymchwiliad cyn i'w adroddiad ar yr ymchwiliad gael ei gyhoeddi.

### **Dichell Fwriadol**

134. Mae'r Bil yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau i'r Senedd. Wrth ymateb i Argymhelliad 4 o adroddiad y Pwyllgor ynghylch dichell fwriadol, mae'n cyflwyno, yn benodol, ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffeithiau anwir. Yn yr achos hwn, ystyrir mai dyletswydd, yn hytrach na phŵer disgresiwn, sy'n briodol oherwydd bod y Bil yn mynd drwy'r Senedd ar ddiwedd ei thymor. Y nod yw sicrhau y caiff darpariaethau o'r fath eu cynnwys mewn Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y dyfodol.

### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

135. Mae'r Bil yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd yn y rhestr o gyrrff cyhoeddus yn Atodlen 6 i'r Mesur hwnnw ac mae'n gwneud y Comisiynydd yn ddarostyngedig i'r Safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Mae hyn yn rhoi'r sail i wneud y Comisiynydd Safonau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ar ôl proses ymgysylltu a chyhoeddi hysbysiad cydymffurfio.

## 4. Ymgynghori

136. Cyhoeddwyd adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynglŷn â'i ymchwiliad ynghylch atebolrwydd Aelodau unigol ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025. Mae argymhelliad cyntaf adroddiad y Pwyllgor ar Adalw yn gosod amserlen uchelgeisiol i “*gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno system adalw erbyn 2026, mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd*”.<sup>21</sup> Mewn ymateb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil yn ystod tymor y Senedd, ond nodwyd bod “*datblygu deddfwriaeth sylfaenol, ei drafftio, craffu arni a'i phasio cyn diddymu, a hynny mewn ychydig dros flwyddyn, yn her sylweddol, ond yn un, os mai dyna yw dymuniad y Senedd, y bydd y Llywodraeth yn ceisio ei chyflawni*”.<sup>22</sup>
137. O fewn yr amserlen a oedd ar gael, ac er mwyn cyflwyno Bil ym mlwyddyn olaf tymor y Senedd, sef tua 9 mis ar ôl cyhoeddi adroddiadau'r Pwyllgor, nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus agored ei hun ar y dewisiadau polisi arfaethedig er mwyn iddynt gael effaith drwy Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) neu drwy Fil drafft.
138. Cafodd adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar adalw a dichell fwriadol eu llywio gan [ymgynghoriad cyhoeddus agored](#) a 21 o sesiynau tystiolaeth. Cafodd y Pwyllgor gyfanswm o 32 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys ymatebion gan Banel Dyfarnu Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Prif Gwnstabiliaid, Gwasanaeth Eryl y Goron, Crynwyr Cymru, y Sefydliad Ymchwil Cyfansoddiadol a Democrataidd, Compassion in Politics a Transparency International UK.
139. Cafodd yr adroddiadau hefyd eu llywio gan y dystiolaeth a ddaeth i law y Pwyllgor Biliau Diwygio yn ystod eu gwaith craffu Cyfnod 1 ar Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae'r gweithgarwch ymgysylltu a'r dystiolaeth a ddaeth i law y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi bod, i raddau helaeth, yn sail i'r gwaith, a hynny er mwyn bodloni'r amserlenni heriol. Fodd bynnag, mae nifer o argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys:
- “Argymhelliad 3:** *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall.*”
- “Argymhelliad 8:** *Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol – a rhanddeiliaid eraill sydd â*

---

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Atebolrwydd Aelodau Unigol, Adalw – Ionawr 2025

<sup>22</sup> Atebolrwydd Aelodau Unigol – Adalw. Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Mawrth 2025

*diddordeb – ar oblygiadau ymarferol cynnal pleidlais adalw ar un diwrnod ar draws nifer o orsafoedd pleidleisio mewn etholaeth.”*

**“Argymhelliad 9:** *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol i wneud yn siŵr bod y wybodaeth a anfonir ynghylch adalw'n hysbysu pleidleiswyr yn glir o'r rheswm dros adalw, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt.”*

140. Derbyniwyd yr holl argymhellion hyn. Wrth lunio'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau ategol felly (yn arbennig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), mae swyddogion wedi ymgymryd â'r camau gweithredu a ganlyn:
- Ymgysylltu dwyochrog wedi'i dargedu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd a'r Comisiwn Etholiadol, i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'u barn ar y materion allweddol gan gynnwys goblygiadau ariannol y cynigion;
  - Cydweithio'n gynnar ac yn fanwl â'r gymuned o weinyddwyr etholiadol, gan sicrhau y byddai pryderon gweinyddol yn gallu cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r ddeddfwriaeth.
141. Mae'r ymgynghoriad a dargedwyd a gynhaliwyd â rhanddeiliaid wedi galluogi cynnwys amcangyfrifon manwl o gostau i gyd-fynd â'r Bil, gan gynnwys o ran ei oblygiadau i Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, gweinyddwyr etholiadol (drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol) a'r Comisiwn Etholiadol.
142. Fel y nodir uchod, llywiodd y drafodaeth â'r Comisiwn Etholiadol y gwaith o lunio'r cwestiwn a'r ymatebion i'w cynnwys ar bapur pleidleisio pŵl adalw gan geisio sicrhau eu bod yn gryno, wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir, yn defnyddio brawddegau byrion, ac yn osgoi defnyddio jargon neu dermau technegol na fyddai'r mwyafrif o bobl yn eu deall yn hawdd.
143. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd rhwng y Cwnsler Cyffredinol (fel yr Aelod Cyfrifol) a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch y gwaith o ddatblygu'r Bil, a hynny mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys trafod mân ddiwygiadau i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, yr awgrymodd y Pwyllgor y dylid eu cynnwys yn y Bil, fel y cyfeirir ato uchod.
144. Fel y nodir uchod, bydd angen gwneud darpariaeth sylweddol mewn is-ddeddfwriaeth o ran y “rheolau” yn ymwneud â phŵl adalw (o bosibl yn debyg i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol i'r Senedd) a rheoleiddio ariannol ac ati. Yn sgil yr amserlen ychydig yn hirach ar gyfer llunio'r is-ddeddfwriaeth, bydd cynlluniau ymgysylltu ac ymgynghori penodol yn cael eu datblygu, gan gyflawni'r argymhellion penodol uchod.

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

145. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- a. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- b. ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- c. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- d. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

146. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar ôl ffurfioli'r cynigion.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

<b>Adran</b>	<b>Rhoddir y pŵer/swyddogaeth i</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Y weithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
11	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn caniatáu ar gyfer rheoleiddio polau adalw mewn modd tebyg i etholiadau i'r Senedd, a chyda'r un lefel o hyblygrwydd. Mae'r pŵer ei hun yn ddarostyngedig i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, a dim ond gyda chydysyniad y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â therfynau treuliau [gweler a.11(5)].	Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd	Mae'r pŵer yn caniatáu ar gyfer rheoleiddio'r rhan fwyaf o agweddau ar bôl adalw, ac felly maent yn sylfaenol i'r system adalw gyffredinol. Felly, mae'n briodol y caiff y weithdrefn gymeradwyo ei chymhwyso i'r modd y caiff ei arfer. Mae hyn hefyd yn gyson â phwerau tebyg ar gyfer digwyddiadau etholiadol eraill.
22	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae hyn yn cyflwyno dyletswydd newydd	Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd	Mae'r ddyletswydd hon yn rhan o bŵer Gweinidogion Cymru yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sef y weithdrefn y rhagnodir ar ei chyfer yn adran

Adran	Rhoddir y pŵer/swyddogaeth i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					13(7) o'r Ddeddf honno. Mae'r weithdrefn yn cynnwys gofyniad i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol wrth wneud Gorchymyn o dan adran 13 fel sy'n ofynnol gan adran 7 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
23	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Er mwyn sicrhau nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol bellach i wneud unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r Bil, ac i ganiatáu i unrhyw arbedion a darpariaethau trosiannol angenrheidiol gael eu gwneud.	Gweithdrefn diddymu'r Senedd, ond gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd os yw'n addasu deddfwriaeth sylfaenol.	Mae'n briodol bod lefel ychwanegol o graffu os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio, ei diddymu neu ei haddasu.
24	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Er mwyn galluogi'r system adalw y darperir ar ei chyfer yn Rhan 1 i ddod i rym ar yr adeg briodol unwaith y bydd	Dim gweithdrefn	Y pŵer yw dod â'r darpariaethau, y bydd y Senedd wedi cytuno arnynt, i rym ar yr adeg

Adran	Rhoddir y pŵer/swyddogaeth i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol wedi'i llunio.		briodol os caiff y Bil ei basio. Bydd y Gorchymyn yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

147. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
148. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
149. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o gostau a manteision y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6(viii) a (ix).
150. Fodd bynnag, o ran darpariaethau lle y gellir cynnal aseiad ystyrion o'r costau tebygol dros gyfnod arfarnu, mae aseiad o'r fath wedi'i gynnal. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y costau sy'n gysylltiedig â phenodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a'r costau sy'n gysylltiedig â llunio ac adolygu canllawiau ar sancsiynau.

<b>Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)</b>		
<b>Yr opsiwn a ffefrir:</b> Mae'r Bil hwn yn gweithredu argymhellion adroddiadau Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ynghylch <a href="#">Adalw</a> a <a href="#">Dichell Fwriadol</a> , a gafodd eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.		
<b>Cyfnod:</b> Gwelliannau	<b>Cyfnod arfarnu:</b> 2026-27 - 2035-36	<b>Blwyddyn sail brisiau:</b> <b>2025-26</b>
<b>Cyfanswm Costau</b> <b>Cyfanswm:</b> £472,600 – £1,355,600 <b>Gwerth presennol:</b> <b>£428,400 - £1,163,100</b>	<b>Cyfanswm Manteision</b> <b>Cyfanswm:</b> £0 <b>Gwerth presennol:</b> £0	<b>Gwerth Presennol Net:</b> <b>£-428,400 - £-1,163,100</b>

## Cost gweinyddu

### Costau:

Asesir bod y gost uned i Weinyddwyr Etholiadol ar gyfer cynnal pŵl adalw y Senedd mewn un etholaeth oddeutu £642,100. Nid oes costau ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

Yn ystod 2026-27, bydd costau staff Llywodraeth Cymru (costau cyfle) sy'n gysylltiedig â gwneud Rheoliadau i nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal Pŵl Adalw. Aseswyd bod hyn yn £190,800.

Amcangyfrifir bod y gost i Gomisiwn y Senedd ar gyfer llunio canllawiau yn amrywio rhwng £71,800 a £74,800 (y mae £64,800 ohono yn gost cyfle untro, a rhwng £7,000 a £10,000 yn gostau untro ar gyfer caffael cyngor cyfreithiol allanol ac ymchwil academaidd).

### Recriwtio aelodau lleyg

Amcangyfrifir bod y gost i Gomisiwn y Senedd ar gyfer recriwtio a sefydlu aelodau lleyg yn amrywio rhwng £28,000 a £43,000 ar gyfer pob cylch recriwtio (y mae £13,000 ohono yn gost gyfle a rhwng £15,00 a £30,000 yn gostau ar gyfer hysbysebu, defnyddio cwmni recriwtio allanol a defnyddio hwyluswyr allanol).

Amcangyfrifir bod costau yn ymwneud â thâl aelodau lleyg yn amrywio rhwng £14,500 a £87,200 y flwyddyn, ac amcangyfrifir y bydd costau cymorth TGCh yn amrywio rhwng £1,800 a £10,500 y flwyddyn.

### Y Comisiynydd Safonau

Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiynydd Safonau a Chomisiwn y Senedd, nodwyd costau cyfle posibl o rhwng £0 a £16,300 fesul tymor Senedd mewn perthynas â'r pŵer i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun.

<b>Pontio: £262,600 - £265,600</b>	<b>Rheolaidd: £210,000 - £1,090,000</b>	<b>Cyfanswm: £472,600 – £1,355,600</b>	<b>Gwerth presennol: £428,400 - £1,163,100</b>
<b>Arbedion costau:</b> Ni nodwyd unrhyw arbedion costau.			
<b>Pontio: 0</b>	<b>Rheolaidd: 0</b>	<b>Cyfanswm: 0</b>	<b>Gwerth presennol: 0</b>
<b>Cost gweinyddu net:</b> £472,600 – £1,355,600			

### **Costau cydymffurfio**

Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.

<b>Pontio: £-0</b>	<b>Rheolaidd: £-0</b>	<b>Cyfanswm: £-0</b>	<b>Gwerth presennol: £-0</b>
--------------------	-----------------------	----------------------	------------------------------

### **Costau eraill**

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.

<b>Pontio: £-0</b>	<b>Rheolaidd: £-0</b>	<b>Cyfanswm: £-0</b>	<b>Gwerth presennol: £-0</b>
--------------------	-----------------------	----------------------	------------------------------

## Costau ac anfanteision heb eu meintoli

Wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, nodwyd nifer o feysydd a allai amrywio o ran cynnal pôl adalw. Fodd bynnag, ystyrir ym mhob achos mai bychan yw natur y rhain ac ni chânt eu meintoli felly yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

- Ni fyddai angen proses enwebu yn rhan o'r broses, a fyddai'n golygu arbediad o ran amser staff, ond gan nad yw hyn fel arfer yn cael ei adennill, nid oes iddo fawr o berthnasedd.
- Mae'n bosibl y bydd arbediad bach os bydd papurau pleidleisio yn sylweddol llai na'r rhai ar gyfer etholiad i'r Senedd, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn arwain at arbediad sylweddol, yn arbennig gan ystyried y byddai'r gofynion eraill o ran y papur pleidleisio, er enghraifft cynnwys marc swyddogol, yn parhau i fod yn gymwys.
- Gallai papurau pleidleisio drwy'r post gael eu dyroddi yn gynt gan na fyddai cyfnod enwebu, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gost.
- Mae'n bosibl y gallai fod arbediad bach yn y cyfrif. Byddai angen i brosesau cyfrif barhau i sicrhau bod pob blwch pleidleisio yn cael ei ddychwelyd, bod y cynnwys yn cael ei wirio (gan gynnwys papurau pleidleisio drwy'r post), yn ogystal â gwneud penderfyniadau ynghylch papurau amheus. Yn sgil y ffaith bod polau adalw yn debygol o fod yn uchel eu proffil ac efallai'n ddadleuol o ran natur, mae'n bosibl y byddai'n well gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ddibynnu ar arferion presennol ar gyfer etholiadau yn yr etholaeth, a hynny yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, yn hytrach nag arbofi â lleoliadau llai, yn arbennig os yw'r pôl adalw yn un dadleuol. Fodd bynnag, gall symlrwydd cymharol gweithdrefnau cyfrif y pleidleisiau olygu bod angen llai o staff ac yn sgil hynny, mae'n bosibl y gellid hefyd ddefnyddio lleoliadau llai mewn rhai etholaethau, a allai arwain at lai o gostau.
- O ran cofrestru etholiadol, gall natur bosibl unrhyw bôl adalw ennyn diddordeb sylweddol a allai arwain at fwy o bobl yn cofrestru i bleidleisio. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd iawn ei rag-weld neu ei feintoli. Byddai hyn yn rhoi mwy o alw ar amser gweinyddwyr etholiadol ond mae'n annhebygol o fod yn wahanol iawn i etholiad i'r Senedd.

## Manteision

Er y rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at nifer o fanteision, nid yw wedi bod yn bosibl pennu gwerth ariannol y manteision hyn ar hyn o bryd. Y bwriad sy'n sail i'r diwygiadau yw gwneud y canlynol:

- Cynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd i'r etholwyr, drwy gryfhau'r systemau sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu eu hymddygiad;
- O ganlyniad i hynny, cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Senedd.

Cyfanswm: £-0

Gwerth presennol: £-0

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu cadarnhaol ac adeiladol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd, Comisiynydd Safonau'r Senedd, y Comisiwn Etholiadol a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

Mae agweddau arwyddocaol ar y ddeddfwriaeth yn darparu fframwaith y caiff y Senedd ddewis gweithredu oddi tano, ond nid yw'n gorfodi gweithredu o'r fath. Er enghraifft, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y *caniateir* penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i hynny ddigwydd. Nid yw'r ddeddfwriaeth ychwaith yn pennu nifer yr aelodau lleyg, na lefel eu tâl. Mae pen uchaf yr ystod o gostau tâl felly yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, a nodir yn fanwl isod.

Yn ogystal, nid yw'n bosibl – nac yn briodol – asesu amlder tebygol ymddygiad yr Aelodau a allai arwain at sancsiwn adalw. Felly, cyflwynir costau cynnal pŵl adalw yma fel "cost uned", sef cost cynnal pŵl adalw pe bai'n digwydd. Mae'r gost uned honno ei hun yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau sy'n sail i'r gost debygol o gynnal etholiad yn seiliedig ar y system etholiadol newydd, na fydd yn cael ei defnyddio hyd nes etholiad cyffredinol i'r Senedd yn 2026.

Mae costau cyfle Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r amser staff sy'n angenrheidiol i gynorthwyo Gweinidogion â'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a wneir o dan bwerau a ddirprwywyd gan y ddeddfwriaeth hon. Gan ystyried mai gwneud y rheoliadau fydd yr arfer cyntaf o'r pŵer newydd hwn, mae ansicrwydd cynhenid o ran cynnal asesiad o'r amser tebygol y mae ei angen i lunio rheoliadau cynhwysfawr.

## 7. Yr opsiynau

### Yr opsiynau a ystyriwyd

151. Cafodd argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch adalw a dichell fwriadol eu nodi yn ffurfiol gan y Senedd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth i roi'r argymhellion ar waith. Mae angen deddfwriaeth i weithredu argymhellion y Pwyllgor, felly yr unig opsiwn arall sydd wedi'i ystyried yw 'busnes fel arfer', hynny yw peidio â gweithredu argymhellion y Pwyllgor. Mae'n bosibl y gallai costio opsiynau lefel uchel eraill gael ei ystyried yn gamarweiniol, gan nad oedd y rhain o dan ystyriaeth mewn gwirionedd.
152. Defnyddiwyd dull tebyg yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a oedd yn ategu Deddf<sup>23</sup> Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (paragraff 457) a Bil<sup>24</sup> Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (paragraff 146) y bwriedid iddynt weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn ei adroddiad Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, yn 2022.
153. Felly, y ddau opsiwn a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw:
- a. Opsiwn 1: Busnes fel arfer
  - b. Opsiwn 2: Gweithredu argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad drwy Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau).

---

<sup>23</sup> [BIL SENEDD CYMRU \(AELODAU AC ETHOLIADAU\) Memorandwm Esboniadol -2024](#)

<sup>24</sup> [Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\) -2024](#)

## 8. Costau a manteision

154. Pan ystyrir bod cyfnod arfarnu yn briodol ar gyfer yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'r cyfnod yn cwmpasu rhwng 2026–27 a 2035–36. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu dau o gylchoedd etholiadol y Senedd ac felly caiff ei ystyried yn ddigonol er mwyn i'r amcangyfrif o'r costau gyrraedd cyflwr sefydlog.
155. Fodd bynnag, caiff cyfran sylweddol o'r goblygiadau o ran costau cynnal pŵl adalw fel y darperir ar eu cyfer eu harwain gan y 'galw' i raddau helaeth, gan ddibynnu ar ymddygiad Aelodau'r Senedd yn y dyfodol, a phenderfyniadau a wneir gan y Senedd ynglŷn ag argymhelliad yn ymwneud â sancsiwn adalw.
156. Felly, caiff y costau a fyddai'n cael eu hysgwyddo gan weinyddwyr etholiadol wrth gynnal pŵl adalw eu cyflwyno yma yn syml fel "cost uned" ar gyfer cynnal un pŵl. Ni wneir aseiad o ba mor aml y byddai polau o'r fath yn debygol o gael eu cynnal, ac felly nid oes aseiad dros gyfnod arfarnu wedi'i ystyried.
157. Oni nodir fel arall, mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r ffigurau mewn tablau yn gwneud cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon. Mae'r costau wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%.

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer

158. Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, ac felly nid oes costau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae costau a manteision ychwanegol y ddeddfwriaeth arfaethedig wedi'u hasesu yn erbyn y llinell sylfaen hon.
159. Nid yw wedi bod yn bosibl meintioli'n ariannol y costau cyfle posibl a allai godi o ganlyniad i gollir cyfle i gynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd drwy gryfhau'r systemau presennol sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu eu hymddygiad. Gellid rhag-weld yn rhesymol y bydd hyn yn sicrhau'r gwerth am arian gorau posibl drwy wariant cyhoeddus, gan arwain felly at arbedion ariannol.
160. Mae Opsiwn 1 yn golygu'r costau rheolaidd presennol wrth gynnal etholiadau, gan gynnwys y costau disgwylidig sy'n ymwneud â rhoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil hwnnw.

### Opsiwn 2: Rhoi Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ar waith

161. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:

- System adalw sy'n gymwys i Aelodau'r Senedd.
- Gwelliannau i broses safonau'r Senedd, gan gynnwys galluogi defnyddio annibyniaeth ac arbenigedd aelodau lleyg ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth o ran gwneud penderfyniadau ynghylch ymddygiad Aelod, a chaniatáu hyblygrwydd ychwanegol i'r Comisiynydd Safonau o ran ei swyddogaethau drwy ei alluogi i gychwyn ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun heb fod angen cwyn.
- Nodi pwerau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â dichell fwriadol gan ymgeiswyr gwleidyddol drwy ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan sicrhau y gall gorchmynion ymddygiad yn y dyfodol gynnwys darpariaethau ynghylch dichell fwriadol.

162. Mae amcangyfrifon costau manwl i gyd-fynd â'r Bil wedi'u datblygu, gan gynnwys o ran ei oblygiadau i Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, gweinyddwyr etholiadol (drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol) a'r Comisiwn Etholiadol. Bydd gwerth am arian yn parhau i gael ei ystyried yn llawn wrth i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd o ran y diwygio, a dechrau ei roi ar waith.

163. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol o ganlyniad i'r Bil ac nid oes unrhyw ffactorau hysbys a allai effeithio ar yr amcangyfrifon (naill ai o ran costau neu arbedion) pan fydd penderfyniadau dilynol wedi cael eu gwneud.

#### Costau ac arbedion i weinyddwyr etholiadol

164. Ni nodwyd arbedion costau i weinyddwyr etholiadol o ran peidio â gweithredu (Opsiw 1: busnes fel arfer).

165. Mae swyddogion awdurdodau lleol (gweinyddwyr etholiadol) yn chwarae rhan allweddol o ran cynnal etholiadau i'r Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu awdurdodau lleol i gynnal etholiadau i'r Senedd. Er mwyn bod yn dryloyw, dyma'r costau a'r arbedion a fyddai'n dod i'r amlwg wrth i awdurdodau lleol gynnal etholiadau, y mae Llywodraeth Cymru, yn y pen draw, yn gyfrifol amdanynt.

166. Bydd y rheolau manwl ynghylch polau adalw yn cael eu nodi'n ddiweddarach mewn rheoliadau. Fodd bynnag, mae drafftio'r Bil hwn, sy'n adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn gwneud darpariaeth ar gyfer system sydd mor debyg â phosibl i Etholiad Cyffredinol i'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Pleidlais undydd “dylai/na ddylai” ynghylch a ddylai aelodaeth Aelod o’r Senedd sy’n destun achos adalw barhau.
- Defnyddio’r un gorsafoedd pleidleisio a’r un dosbarthau pôl â’r rhai a ddefnyddir ar gyfer etholiad cyffredinol i’r Senedd.
- Darpariaethau tebyg o ran pleidleisiau drwy’r post.
- Darpariaethau tebyg o ran creu cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio.
- Darpariaethau tebyg o ran amseru, o ran amseroedd cyn cynnal pôl, a diwrnod y pôl ei hun.

167. Felly, mae'r asesiad a gynhaliwyd isod yn defnyddio'r uchafsymiau y gall Swyddogion Canlyniadau eu hadennill mewn cysylltiad ag etholiad y Senedd 2026 fel y procsi mwyaf priodol ar gyfer costau tebygol gweinyddu pleidlais adalw.

**Tabl 8.1: Crynodeb o’r costau i Weinyddwyr Etholiadol sy’n gysylltiedig ag Opsiwn 2**

168. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026 yn nodi'r uchafsymiau y gall Swyddogion Canlyniadau eu hadennill mewn cysylltiad â gweinyddu etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026.

<b>Etholaeth Senedd</b>	<b>Y cyfanswm am dreuliau yr eir iddynt</b>	<b>Y cyfanswm am wasanaethau a ddarperir gan weinyddwyr etholiadol</b>	<b>Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy</b>
Afan Ogwr Rhondda	£638,116	£16,900	£655,016
Bangor Conwy Môn	£538,346	£16,900	£555,246
Blaenau Gwent Caerffili Rhymni	£597,908	£16,900	£614,808
Brycheiniog Tawe Nedd	£606,287	£16,900	£623,187
Caerdydd Ffynnon Taf	£600,488	£16,900	£617,388
Caerdydd Penarth	£605,179	£16,900	£622,079
Casnewydd Islwyn	£658,519	£16,900	£675,419
Ceredigion Penfro	£659,071	£16,900	£675,971
Clwyd	£646,622	£16,900	£663,522
Fflint Wrecsam	£630,004	£16,900	£646,904
Gwynedd Maldwyn	£628,161	£16,900	£645,061
Gŵyr Abertawe	£640,652	£16,900	£657,552
Pen-y-bont Bro Morgannwg	£651,891	£16,900	£668,791
Pontypridd Cynon Merthyr	£621,515	£16,900	£638,415
Syr Fynwy Torfaen	£620,165	£16,900	£637,065
Sir Gaerfyrddin	£659,653	£16,900	£676,553
<b>Cyfansymiau</b>	<b>£10,002,577</b>	<b>£270,400</b>	<b>£10,273,007</b>

169. Asesir, felly, bod “cost uned” gweinyddu pŵl adalw mewn un etholaeth yn **£642,100** ar gyfartaledd.

170. Yn ymarferol, rhagwelir y gallai'r gost o weinyddu pŵl adalw fod ychydig yn is na gweinyddu etholiad cyffredinol i'r Senedd. Mae hyn oherwydd ystod o ffactorau, gan gynnwys:

- Rhagdybiaeth y bydd y cyfrif yn llawer cyflymach ar gyfer pŵl adalw
- Rhagdybiaeth y byddai'r papur pleidleisio yn fyrrach, felly y costau argraffu yn llai o bosibl
- Rhagdybiaeth y byddai'r costau staff yn llai oherwydd nad oes ymgeiswyr i weinyddwyr eu cefnogi.

171. Fodd bynnag, nid oes modd meintioli'r arbedion posibl hyn ar hyn o bryd, ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried wrth asesu'r costau posibl sy'n gysylltiedig â gweinyddu pŵl adalw.

172. Mae'r uchafsymiau y gellir eu hadennill mewn cysylltiad ag etholiad y Senedd yn 2026 yn sylweddol uwch na'r uchafsymiau gellid eu hadennill mewn cysylltiad ag etholiadau cyffredinol y Senedd yn 2021 a 2016.

173. Cyfunwyd y ddau etholiad blaenorol hynny ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a thalwyd costau a oedd yn gysylltiedig â'r rheini drwy Lywodraeth y DU. Mae'r etholiad cyfunol yn defnyddio adnoddau ar y cyd – er enghraifft, gorsafoedd pleidleisio a'r staff ynddynt, ac felly mae costau cyffredinol cynnal etholiad cyfun yn llai na chostau cynnal dau etholiad ar wahân.

174. Yn ogystal, mae nifer o bwysau chwyddiannol sylweddol o fewn costau rhedeg etholiad, ac adlewyrchir y rhain yn y costau. Er enghraifft, mae cost ffrancio dosbarth cyntaf (sy'n gysylltiedig â dyroddi cardiau pleidleisio a dychwelyd pleidleisiau post) wedi cynyddu 157% rhwng 2020 a 2025.

### Costau ac arbedion i Lywodraeth Cymru

175. Ni nodwyd arbedion costau i Lywodraeth Cymru o ran peidio â gweithredu (Opsiw 1: busnes fel arfer).

176. Yn ystod 2026-27, bydd costau staff Llywodraeth Cymru (costau cyfle) sy'n gysylltiedig â datblygu a gwneud yr is-ddeddfwriaeth wrth arfer y pwerau a'r dyletswyddau a roddir i Weinidogion Cymru drwy'r Bil hwn.

**Tabl 8.2: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag Opsiw 2:**

Rhanddeiliad	Gradd staff	Costau gros blynyddol cyfartalog	Costau gros misol cyfartalog	Cyfnod (misoedd)	Cyferth ag amser llawn	Cyfanswm y gost
Llywodraeth Cymru	SEO (Polisi)	74,943	6,245	12	0.7	52,500
	G7 (Polisi)	98,186	8,182	12	0.3	29,500
	Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi)	132,937	11,078	12	0.1	13,300
	G7 (Cyfreithiol)	98,186	8,182	12	0.7	68,700
	G7 (Cyfreithiol - Sicrwydd Ansawdd)	98,186	8,182	3	0.5	12,300
	G6 (Cyfreithiol)	117,797	9,816	12	0.1	11,800
	Cyfieithu					
						<b>190,800</b>

### Costau i'r Comisiwn Etholiadol

177. Ni nodwyd arbedion costau i'r Comisiwn Etholiadol o ran peidio â gweithredu (Opsiw 1: busnes fel arfer).

178. Bydd y darpariaethau adalw yn y Bil (Opsiw 2) yn estyn y gofynion a osodir ar hyn o bryd ar y Comisiwn Etholiadol i gynnwys polau adalw y Senedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Adrodd ar weinyddu unrhyw bôl adalw
- Eu hadolygu'n barhaus a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar faterion datganoledig
- Galluogi cynrychiolwyr y Comisiwn i fod yn bresennol mewn pôl adalw
- Paratoi cod ymarfer ynghylch presenoldeb arsylwyr mewn pôl adalw
- Ymgynghori ar unrhyw newid i'r gyfraith etholiadol a wneir drwy reoliad (a chydsynio i bennu terfynau gwariant)
- Rhoi cyngor a chymorth

179. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch goblygiadau costau tebygol yn sgil estyn y gofynion uchod. Ystyrir y gellir cyflawni'r gwaith o lunio canllawiau, cyflawni swyddogaethau monitro ac adrodd, ac ymwneud â'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth gan ddefnyddio adnoddau a phecynnau cyllid presennol.

### Costau i Gomisiwn y Senedd

180. Ni nodwyd arbedion costau i Gomisiwn y Senedd o ran peidio â gweithredu (Opsiw 1: busnes fel arfer).

181. O ran gweithredu opsiwn 2, nodwyd y costau a ganlyn i Gomisiwn y Senedd.

### Llunio Canllawiau

182. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad lunio canllawiau ar sancsiynau, gan gynnwys gofynion ymgynghori cyn i'r canllawiau gael eu cadarnhau gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn.

183. Ystyrir bod cyfanswm amser staff Comisiwn y Senedd i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad â'r gwaith o lunio canllawiau i benderfynu pryd y dylid argymhell sancsiwn adalw yn gost cyfle sylweddol. Ar sail y trefniadau presennol ar gyfer cynorthwyo'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad â gweithgarwch ymgynghori cymedrol, amcangyfrifir bod y costau cyfle hynny oddeutu £64,800.
184. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol allanol ynglŷn â'r canllawiau a ddatblygir. Amcangyfrifir y byddai'r swm hwn rhwng £3,500 a £6,000. At hynny, wrth lunio'r canllawiau, efallai y bydd angen cynnal adolygiad ymchwil academaidd o enghreifftiau tebyg mewn codau disgyblu domestig. Amcangyfrifir y byddai'r swm hwn rhwng £3,500 a £4,000.
185. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau'r elfen hon o'r ddeddfwriaeth yn amrywio rhwng £71,800 a £74,800 (y mae £64,800 ohono yn gost cyfle untro, a rhwng £7,000 a £10,000 yn gostau untro ar gyfer caffael cyngor cyfreithiol allanol ac ymchwil academaidd). Disgwylir mai yn 2026-27 yr eir i'r gost hon.

### ***Recriwtio aelodau lleyg***

186. Gellir rhag-weld yn rhesymol y byddai'r broses o hysbysebu am aelodau lleyg, eu recriwtio a'u penodi yn debyg i benodiadau cyhoeddus eraill a gynhaliwyd yn flaenorol gan y Senedd. Yn seiliedig ar brofiadau yn ystod y ddwy flynedd galendr ddiwethaf o gynnal prosesau penodiadau cyhoeddus, amcangyfrifir y gallai penodi aelodau lleyg, gan gynnwys efallai hysbysebu a defnyddio cwmni recriwtio allanol, amrywio rhwng £5,000 a £20,000, a byddai'n golygu costau cyfle amser staff o £8,200.
187. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad Cyfnod 1, gwnaed asesiad, gan ymgynghori â Chomisiwn y Senedd, o gost amcangyfrifedig darparu cyfnod sefydlu a chymorth pharhaus i aelodau lleyg.
188. Y costau cyfle mewnol yw amser staff sy'n ymwneud â pharatoi a darparu proses sefydlu, a datblygu strategaeth.

<b>Gradd</b>	<b>Cyfnod amser</b>	<b>Cost gros flynyddol canol pwynt (25-26)</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Gradd 7</b>	1.5 wythnos	£94,560	£2,728
<b>SEO</b>	1.5 wythnos	£72,852	£2,101
<b>Cyfanswm</b>			<b>£4,829</b>

189. Yn ogystal, mae Comisiwn y Senedd wedi nodi'r angen am gyllideb o £10,000 i gcontractio hwylusydd allanol i gynnal proses hwyluso datblygu strategaeth gydag aelodau lleyg.

190. Amcangyfrifir bod cyfanswm costau hysbys yr elfen hon o'r ddeddfwriaeth yn amrywio rhwng £28,000 a £43,000 fesul cyfnod o 6 blynedd (sef uchafswm hyd tymor aelod lleyg).

191. O'r rhain mae £13,000 yn gost cyfle sy'n ymwneud ag amser staff y Senedd sy'n gysylltiedig â recriwtio a sefydlu, ac mae £15,000-£30,000 yn gostau ar gyfer hysbysebu a defnyddio cwmni recriwtio allanol i recriwtio a hwylusydd allanol i ddatblygu'r Strategaeth.

192. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys pryd y byddai gweithgarwch recriwtio yn digwydd, na pha mor aml; ac felly, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r costau wedi'u cyfrifo fesul blwyddyn ar draws y cyfnod arfarnu (gan ddechrau yn 2026-27).

### ***Tâl aelodau lleyg***

193. Mae'r ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer penodi o leiaf un aelod lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys a fyddai Aelodau'r Senedd yn y dyfodol yn dewis penodi isafswm nifer yr aelodau lleyg, ynteu hyd at yr uchafswm (a fyddai'n hafal i nifer yr Aelodau etholedig a benodir i'r Pwyllgor). Ar y sail bod gormod o ansicrwydd cymhleth, nododd Comisiwn y Senedd y tâl a chostau TGCh ar gyfer aelodau lleyg fel cost anhysbys.

194. Fodd bynnag, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio nodi'n eglur yr ystod fwyaf bosibl o gostau. At y diben hwn, tybir y bydd y gost flynyddol, os eir iddi, yn dechrau yn 2026-27.

195. O ystyried mai dim ond un aelod lleyg y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ei benodi, mae ystod y costau yn dechrau ar yr hyn a fyddai'n gyfystyr â phenodi un aelod. Wrth asesu pen uchaf y costau posibl, gwnaethpwyd nifer o ragdybiaethau allweddol. Mae'n bwysig nodi bod hyder isel o ran cywirdeb y rhagdybiaethau a wneir, fel a ganlyn:

- Y byddai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dewis penodi uchafswm nifer yr aelodau lleyg (hynny yw, yr un faint â nifer yr aelodau etholedig o'r Pwyllgor).
- Y byddai nifer yr aelodau etholedig ar y Pwyllgor yn 6, gan adlewyrchu'r cynnydd ym maint y Senedd.
- Yr amcangyfrifir y caiff aelodau lleyg eu talu ar gyfradd uchaf o £600 y diwrnod, yn seiliedig ar adlewyrchu'r cynllun ar gyfer talu aelodau lleyg cyfatebol yn Senedd y DU. Mae'n bosibl y gallai tâl aelodau lleyg yn y Senedd fod yn is, yn ymarferol, gan adlewyrchu'r ffaith y gallai fod ganddynt rôl wahanol, ac na fydd angen ystyried lwfans Llundain, ond ystyrir bod hyn yn uchafswm priodol at ddiben ystod enghreifftiol.
- Y byddai aelodau lleyg yn "eistedd" am dri diwrnod y mis tra bod y Senedd yn eistedd, sy'n cyfateb i raddau helaeth i aelodau lleyg yn Senedd y DU (sy'n cyfateb i tua 25 o ddiwrnodau y flwyddyn).

196. Ar sail y rhagdybiaethau hyn, ystyrir mai £87,200 y flwyddyn yw pen uchaf yr ystod bosibl o gostau ar gyfer tâl aelodau lleyg. Fel y nodwyd uchod, mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch rhai o'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y gwaith cyfrifo hwn. Fodd bynnag, ystyrir bod yr amcangyfrif hwn yn amcangyfrif rhesymol o ben uchaf yr ystod costau. Byddai'r gost yn is pe bai llai o aelodau lleyg yn cael eu recriwtio neu pe cytunid ar gyfradd tâl dyddiol is, ond byddai'n parhau i fod o fewn yr ystod costau o £14,500-£87,200 y flwyddyn a gyflwynir yma.

197. O ran costau'r cymorth TGCh y byddai ei angen ar gyfer aelodau lleyg, aseswyd y byddai'r rhain yn £7,000 fesul aelod dros dymor Senedd o bedair blynedd. Gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau ag uchod o ran nifer isaf ac uchaf yr aelodau lleyg (sef 1 a 6), mae hyn yn darparu ar gyfer ystod o gostau blynyddol cyfartalog rhwng £1,800 a £10,500.

## **Y Comisiynydd Safonau**

198. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer galluogi'r Comisiynydd Safonau i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun i achosion o Aelod yn torri rhwymedigaeth neu bryderon am ymddygiad Aelod.
199. Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiynydd Safonau, rhagwelir mai yn anaml iawn - yn ymarferol - y byddai'r pŵer i gychwyn ymchwiliadau yn cael ei ddefnyddio. Felly, mae'r amcangyfrifon canlynol o gostau cyfle yn seiliedig ar un defnydd o'r pŵer i gychwyn ymchwiliadau unwaith mewn tymor Senedd (o bedair blynedd).
200. Mae'r amser y mae ymchwiliad yn ei gymryd (ac felly'r costau cyfle a allai godi) yn amrywio'n fawr o ran eu maint a'u cymhlethdod. Mae'r Comisiynydd Safonau wedi cynghori y gall rhai gymryd llai nag awr o amser y Comisiynydd a/neu ei staff, ond y gallai eraill gymryd cymaint ag 20 diwrnod. Felly, mae ystod cost cyfle wedi'i datblygu o sero (sy'n adlewyrchu ymchwiliad sy'n cymryd llai nag awr) i uchafswm ar ben arall yr ystod sy'n seiliedig ar 20 diwrnod.

<b><u>Rôl</u></b>	<b><u>Cyfnod amser</u></b>	<b><u>Cyfanswm Cyfradd diwrnod + 13.2% Gogledd Iwerddon (yn seiliedig ar gostau cyfartalog Gogledd Iwerddon)</u></b>	<b><u>Cyfanswm</u></b>
Comisiynydd Safonau	20 diwrnod	£533.45	£10,700
<b><u>Gradd</u></b>	<b><u>Cyfnod amser</u></b>	<b><u>Cost gros flynyddol canol pwynt (25-26)</u></b>	<b><u>Cyfanswm</u></b>
SEO	20 diwrnod	£72,852	£5,600
			£0-£16,300

Yn flynyddol dros dymor Senedd pedair blynedd, mae hyn yn arwain at gost gyfle o £0 - £4,100 y flwyddyn.

**Tabl 8.3: Crynodeb o'r costau i Gomisiwn y Senedd sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2:**

	<b>Blwyddyn Ariannol</b>	<b>Costau</b>
Costau cyfle wrth gynorthwyo â'r gwaith o lunio canllawiau	2026-27	£64,800
Costau cyfreithiol wrth lunio canllawiau	2026-27	£3,500-£6,000
Costau academiaidd wrth lunio canllawiau	2026-27	£3,500-£4,000
Costau recriwtio a sefydlu aelodau lleyg	Cyfartaledd blynyddol fesul blwyddyn	£4,600-£7,100
Costau tâl aelodau lleyg	Cost flynyddol	£14,500 - £87,200
Cymorth TGCh ar gyfer aelodau lleyg	Cyfartaledd blynyddol fesul blwyddyn	£1,800-£10,500
Costau cynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun gan y Comisiynydd Safonau	Cyfartaledd blynyddol fesul blwyddyn	£0 - £4,100

#### Costau i Bleidiau Gwleidyddol

201. Mae'n bosibl y gall cyflwyno system adalw ar gyfer Aelodau o'r Senedd arwain at gostau ychwanegol yn ogystal ag arbedion i bleidiau gwleidyddol sy'n ymwneud â'r broses etholiadol yng Nghymru, y gall eu haelodau gael eu gwneud yn destun proses adalw. Fodd bynnag, ni fyddai modd mesur y costau na'r arbedion hyn oherwydd y gallent amrywio'n helaeth rhwng pob plaid wleidyddol. Dim ond pe bai Aelod o'r Senedd o restr plaid yn cael ei wneud yn destun proses adalw y byddai effaith ar blaid. Hyd yn oed yn y sefyllfa honno, mae'n bosibl y byddai nifer o wahanol ffactorau ynghlwm wrth yr achos, gan gynnwys a yw'r Aelod yn parhau i fod yn aelod o'r plaid wleidyddol. Felly, gallai'r man cychwyn ar gyfer pob plaid, ac i ba raddau y mae'n chwarae rhan yn y broses, fod yn wahanol iawn.

202. Mae disgrisiwn o ran i ba raddau y gall pleidiau gwleidyddol ddewis cymryd rhan mewn pŵl adalw. Er enghraifft, mae'n dibynnu a fyddai'r plaid wleidyddol yn cefnogi'r Aelod mewn pŵl adalw, neu a fyddai'n ceisio ei ddiswyddo er mwyn dychwelyd y person cymwys nesaf ar ei rhestr plaid. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar unrhyw gostau ac arbedion posibl. Gan nad yw'r penderfyniadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil ac nad ydynt wedi'u gwneud eto gan bleidiau gwleidyddol, nid oes modd eu mesur ac nid yw'r costau na'r arbedion yn hysbys ar hyn o bryd.

## Manteision

203. Ni ragwelir y bydd newidiadau sy'n deillio o'r Bil yn arwain at arbedion cost cyffredinol.
204. Rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at fanteision heb werth ariannol, ac mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod.
205. Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r fantais o gynyddu atebolrwydd democrataidd Aelodau'r Senedd i'w hetholwyr, drwy ganiatáu iddynt gael y gair olaf ynghylch a ddylid diswyddo Aelod o'i swydd drwy gyflwyno pŵl adalw.
206. Mae'r system hefyd yn creu mantais eilaidd, gan y bydd yn gwella ymddiriedaeth yn ein sefydliadau democrataidd ac yn y rhai y mae eu rôl yn ymwneud â chynrychioli pobl Cymru, a hynny drwy ganiatáu diswyddo Aelodau o'r Senedd, yr ystyrir bod eu hymddygiad o'r natur fwyaf difrifol ac yn groes i'r safonau a ddisgwylir gan Aelodau a nodir yn y Cod Ymddygiad.
207. Mae cyflwyno adalw fel sancsiwn eithaf y gellir ei osod ar Aelod o'r Senedd yn creu'r fantais bod gan y Senedd ddigon o bwerau i ymdrin ag achosion o gamymddwyn difrifol. Hynny yw, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle y gall aelod gael ei atal am uchafswm o ddiwrnodau yn unig, ac yna ddychwelyd.
208. Bydd y mesurau yn Rhan 2 o'r Bil yn creu'r fantais o gryfhau proses safonau'r Senedd yn ehangach, a hynny drwy ganiatáu cyflwyno persbectif ac arbenigedd annibynnol ac allanol ar gyfer y cam pwysig o wneud penderfyniadau yn y broses. Caiff hyn ei gyflawni drwy benodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae tystiolaeth o Senedd y DU yn dangos bod penodiadau o'r fath yn helpu i wella hyder yn y broses safonau drwy wrthbwysu pryderon bod y broses yn un 'wleidyddol' ac yn un a ystyrir yn 'bleidiol', yn hytrach nag yn broses wrthrychol. Yn yr un modd, bydd mesurau'r Bil a fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd Safonau gychwyn ymchwiliad i ymddygiad Aelod ar ei ysgogiad ei hun hefyd yn cryfhau'r broses safonau. O ganlyniad i'r mesurau, bydd gan y Comisiynydd hyblygrwydd ychwanegol o ran pryd y gall ymchwilio ac felly sicrhau ei fod yn gallu cynnal y safonau a ddisgwylir gan yr Aelodau, a nodir yn y Cod Ymddygiad.

## 9. Asesiadau o'r effaith

209. Ochr yn ochr â'r asesiad o gostau, mae Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau ar bob elfen o'r Bil. Diben yr asesiad hwn oedd ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar grwpiau penodol o bobl a meysydd polisi, ac ystyried unrhyw newidiadau i'r Bil y mae eu hangen er mwyn lliniaru effeithiau negyddol, neu sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol.
210. Ceir crynodeb isod o'r Asesiad Effaith Integredig. Mae ar gael yn llawn ar gais gan [DiwygiorSenedd@llyw.cymru](mailto:DiwygiorSenedd@llyw.cymru).
211. Mae asesiadau unigol, manylach, o'r effaith wedi eu paratoi pan fo'r Asesiad Effaith Integredig wedi nodi y gallai'r Bil gael effeithiau penodol, neu pan fo gofyniad deddfwriaethol i wneud hynny. Paratowyd asesiadau effaith unigol ynghylch y canlynol:
- Cydraddoldeb;
  - Diogelu data;
  - Y Gymraeg;
  - Y system gyfiawnder.
212. Ni nodwyd unrhyw effeithiau a oedd yn golygu bod angen ailystyried neu oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

### Crynodeb o'r asesiad effaith integredig

#### Effaith ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

213. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth o ran y pum ffordd o weithio a nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).
214. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod gan y ddeddfwriaeth y fantais **hirdymor** barhaus o gynyddu atebolrwydd Aelodau'r Senedd i'w hetholwyr, drwy ddarparu mecanwaith iddynt adalw Aelod o'r Senedd yn ystod eu tymor yn y swydd, drwy gynnal pŵl yn yr etholaeth berthnasol.
215. Nod y system adalw yw gwella'r broses ddemocrataidd drwy ganiatáu diswyddo Aelod o'r Senedd os caiff ei euogfarnu o drosedd a chael dedfryd o garchar, neu os ystyrir bod ei ymddygiad yn dor difrifol o'r safonau a ddisgwylir. Nod y system yw **atal** sefydliadau democrataidd Cymru rhag cael eu dwyn i anfri ac mae'n ceisio adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn eu cynrychiolwyr etholedig drwy gynnal y safonau a nodir yng nghod ymddygiad y Senedd.

216. Wrth ddatblygu'r system adalw, ystyriwyd sut y bydd yn **integreiddio** â'r trefniadau etholiadol sydd i'w cyflwyno ar gyfer etholiadau i'r Senedd yn 2026 ac yn benodol y system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig. Mae'r system adalw wedi ei chynllunio i ategu'r system etholiadol i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol.
217. Mae partneriaid a rhanddeiliad wedi **cydweithio** wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid cyflawni yn y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn safonau ym maes bywyd cyhoeddus. Rhagwelir y bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei gynnal wrth roi mesurau'r Bil ar waith.
218. Gan fod yr argymhellion sydd wedi bod yn sail i'r ddeddfwriaeth yn deillio o'r Senedd, a hynny yn sgil ystyriaethau'r Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, mae'n briodol bod y Senedd yn **ymwneud** â phenderfynu ar y mesurau terfynol sydd wedi eu cynnwys ynddi. Bydd cyfle i'r Senedd wneud hyn yn ystod y broses craffu ar ddeddfwriaeth.

#### Yr effaith ar lesiant cymdeithasol

219. Yn yr Asesiad Effaith Integredig, ystyriwyd sut, ac i ba raddau, y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio ar bobl a chymunedau. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau ar unigolion, grwpiau o bobl neu gymunedau penodol, pobl sy'n byw, yn gweithio, neu'n gysylltiedig â lleoedd penodol, defnyddwyr cynnyrch neu wasanaethau penodol, gweithwyr, yn gyffredinol ac mewn sectorau penodol, a'r nod o hyrwyddo gwaith teilwng a theg (yn unol ag adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

#### Effaith ar lesiant diwylliannol

220. Gwnaeth yr Asesiad Effaith Integredig ystyried effeithiau'r ddeddfwriaeth ar lesiant diwylliannol. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar lesiant diwylliannol.

#### Effaith ar y Gymraeg

221. Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg, a nodwyd nad oedd y Bil yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Mae'r Asesiad Effaith wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnodau 2 a 3, i ddiwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn cynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd yn y rhestr o gyrrff cyhoeddus yn Atodlen 6 i'r Mesur hwnnw ac i wneud y Comisiynydd yn ddarostyngedig i'r safonau a nodir yn Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

222. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod etholwyr yn gallu cymryd rhan yn y broses Adalw drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bil yn nodi bod rhaid ysgrifennu pob papur pleidleisio yn Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal, caiff y cwestiynau a'r atebion a fyddai'n cael eu defnyddio ar bapur pleidleisio eu darparu yn ddwyieithog ar wyneb y Bil.

#### Effaith ar lesiant economaidd

223. Yn fras, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael unrhyw effaith sylweddol ar lesiant economaidd. Ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith Economaidd.

#### Effaith ar y sector cyhoeddus

224. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried goblygiadau posibl y Bil i'r sector cyhoeddus.

225. Mae goblygiadau ariannol y newidiadau wedi eu hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

226. Nododd yr Asesiad Effaith Integredig y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar rôl y Comisiwn Etholiadol o ran etholiadau datganoledig yng Nghymru, gan y bydd yn estyn dyletswyddau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer yr etholiadau hyn, megis adrodd ar gynnal etholiadau, i amgylchiadau pŵl adalw.

227. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar rôl swyddogion canlyniadau etholaethol a gweinyddwyr etholiadol mewn awdurdodau yn sgil y ffaith eu bod yn gyfrifol am drefnu a chynnal etholiadau. Byddant yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau tebyg ar gyfer cynnal polau adalw. Bydd yr effaith a nodwyd yn fach oherwydd bod gan swyddogion canlyniadau etholaethol a gweinyddwyr etholiadol weithdrefnau a systemau eisoes ar waith ar gyfer cynnal etholiadau a gellir addasu'r rhain yn ddidrafferth er mwyn cynnal pŵl adalw.

228. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi nodi y bydd mesurau'r Bil yn cael effaith ar rôl Comisiwn y Senedd o ran cynorthwyo'r Llywydd a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn ogystal â'r swyddogion hynny sy'n ffurfio swyddfa Comisiynydd Safonau y Senedd. Fodd bynnag, bydd yr effaith a nodwyd yn fach, gan y bydd yn gymwys dim ond yn yr amgylchiadau prin a ragwelir lle y bydd yn ofynnol i'r Llywydd hysbysu Swyddog Canlyniadau Etholaethol bod un o'r ddau ddigwyddiad sbardun ar gyfer adalw wedi digwydd. Bydd swyddogion y Comisiwn yn cynorthwyo'r Llywydd i gyflawni'r ddyletswydd hon.

229. O ran gallu'r Comisiynydd Safonau i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun, mae swyddogion Comisiwn y Senedd eisoes yn cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau ymchwilio, felly, ni fydd y Bil yn golygu bod angen i'r swyddogion ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol. Yn yr un modd, mae swyddogion y Comisiwn eisoes yn

cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Pe bai'r Senedd felly yn dewis penodi aelodau lleug i'r Pwyllgor, ni fydd swyddogion yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol, ond yn hytrach, byddant yn darparu i aelodau lleug gymorth tebyg i'r hyn maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd i aelodau etholedig.

230. Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac wrth asesu'r effeithiau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus a nodwyd uchod, i ddeall yr effeithiau y bydd y ddeddfwriaeth yn eu cael ar eu rolau a'u cylch gwaith eu hunain.

#### Effaith ar y trydydd sector

231. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried goblygiadau posibl y Bil i'r trydydd sector. Nid ystyriwyd bod y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar y trydydd sector.

#### Effaith ar lesiant amgylcheddol a bioamrywiaeth

232. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried effaith y ddeddfwriaeth ar lesiant amgylcheddol.
233. Nid ystyriwyd bod y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant amgylcheddol. O ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

#### Effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol

234. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried effaith y ddeddfwriaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Nid ystyriwyd bod y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant economaidd-gymdeithasol. O ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

#### Yr effaith ar iechyd

235. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd.

#### Yr effaith ar hawliau plant

236. Gan nad ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar hawliau plant, ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

#### Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

237. Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal ag unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol. Yn gyffredinol, nid yw mesurau'r Bil yn cael unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, nac ar y rhai o aelwydydd incwm isel.

238. Mae'r effeithiau posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, o ganlyniad i Aelod o'r Senedd yn colli ei sedd yn dilyn canlyniad pŵl adalw, wedi eu hystyried. Gall diswyddo Aelod arwain at ostyngiad o gynrychiolaeth yn y Senedd o ran grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Yn yr

un modd, os caiff yr Aelod sy'n cael ei adalw ei ddisodli gan Aelod sydd â nodweddion gwarchoddedig tebyg neu nodweddion gwarchoddedig eraill, gallai hyn gynyddu cynrychiolaeth y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Bydd y cwmpas ar gyfer hyn yn dibynnu ar y camau y mae pleidiau gwleidyddol wedi eu cymryd o ran dewis ymgeiswyr. Mae hyn yn gysylltiedig â chanllawiau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 30 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. O ran y canllawiau, cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Nid oes unrhyw gamau lliniarol y gellir eu cymryd i leihau'r effaith bosibl, oherwydd bod yr amgylchiadau sy'n arwain at ddiswyddo Aelod o ganlyniad i'r adalw yn debygol o amrywio'n fawr ac felly ni ellir eu rhag-weld.

239. Yn rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyriwyd a yw'r cynigion polisi i gyflwyno system adalw ar gyfer Aelodau'r Senedd a'r mesurau i gryfhau proses safonau'r Senedd yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

240. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio ar yr hawl i sefyll mewn etholiad (Erthygl 3, Protocol 1), yr hawl i breifatrwydd (Erthygl 8) a hawl i dreial teg (Erthygl 6).

#### Effaith ar brawfesur gwledig

241. Ni fydd y Bil yn effeithio'n gadarnhaol nac yn negyddol ar unigolion a chymunedau gwledig ac felly nid yw cwblhau Asesiad Effaith Prawf Gwledig llawn wedi ei nodi yn ofyniad.

242. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal polau adalw. Y bwriad polisi yw y bydd cynnal pŵl adalw yn debyg i gynnal etholiad cyffredinol i'r Senedd mewn etholaeth, gan gynnwys trefniadau tebyg ar gyfer pleidleisio drwy'r post a nifer a lleoliadau'r gorsafoddd pleidleisio.

#### Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

243. O ran y Bil, cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

244. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi nodi mai effaith fach y bydd y ddeddfwriaeth yn ei chael ar unigolion o ran casglu a phrosesu data personol, a chasglu a phrosesu swm cyfyngedig o ddata categori arbennig a data ynghylch euogfarnau troseddol.

245. Ar gyfer y data personol a data categori arbennig, dim ond yn yr amgylchiadau cyfyngedig a ganlyn y bydd hyn yn digwydd:

- At ddibenion recriwtio a defnydd rheolaidd o arbenigedd aelodau lleyg yn rhan o'r broses safonau, pe bai'r Senedd yn dewis eu penodi i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad;
- Cynorthwyo swyddogaethau'r Comisiynydd Safonau yn rhan o unrhyw ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun y mae'n ei gynnal, a all gynnwys casglu data categori arbennig sy'n ymwneud â

chamymddwyn Aelod a'r rhai sydd wedi bod yn destun y camymddwyn, neu'n dyst iddo.

246. Gan fod gallu'r Senedd i benodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar sail disgresiwn, ac oherwydd bod yr amgylchiadau posibl y gall y Comisiynydd Safonau ddewis cynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun yn amrywiol, nid yw'n bosibl meintioli nifer y rhai y gallai casglu a phrosesu data effeithio arnynt o ganlyniad i fesurau'r Bil sy'n ymwneud â'r meysydd hyn.
247. O ran prosesu data ynghylch euogfarnau troseddol, dim ond o ganlyniad i'r ddyletswydd a roddir ar y Llysoedd yng Nghymru a Lloegr i hysbysu Llywydd y Senedd y bydd hyn yn digwydd, a hynny pan fydd Aelod o'r Senedd yn cael ei euogfarnu o drosedd a chael dedfryd o garchar (gan gynnwys dedfrydau wedi eu gohirio). Dim ond am hyd tymor pob Senedd y bydd hyn yn effeithio ar y 96 o Aelodau'r Senedd. Fodd bynnag, dim ond mewn nifer bach o achosion y disgwylir i'r amgylchiadau hynny ddigwydd mewn gwirionedd a dim ond os caiff Aelod ddedfryd o garchar o 12 mis neu lai ac nad yw'r euogfarn a'r ddedfryd o garchar yn arwain at ei anghymhwysu yn awtomatig o'i swydd. Mewn unrhyw achos, bydd y data a fydd i'w brosesu eisoes yn y parth cyhoeddus o ganlyniad i'r broses cyfiawnder troseddol a fydd wedi ei chynnal. Yn ogystal, o'r data a fydd i'w brosesu, dim ond y lleiafswm sy'n angenrheidiol at ddibenion hysbysu'r Llywydd bod digwyddiad sbardun A wedi digwydd ac felly dylid cynnal pŵl adalw.
248. Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi nodi unrhyw risgiau sylweddol a fydd yn deillio o gasglu a phrosesu data a fydd yn digwydd yn seiliedig ar fesurau'r Bil. Pan fo risgiau lefel isel wedi eu nodi, gellir lliniaru a rheoli'r rhain yn ddigonol drwy ddefnyddio systemau a phrosesau cadarn, gan gynnwys defnyddio datganiadau preifatrwydd a chyfnodau cadw gan y rheolwyr a'r proseswyr data.

#### Crynodeb o'r Asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

249. O ran y Bil, cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar y System Gyfiawnder.
250. Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau posibl y ddeddfwriaeth hon ar y system gyfiawnder yw na fydd yn cael unrhyw effaith arni, neu y bydd yr effaith yn fach iawn.
251. Daethpwyd i'r casgliad hwn ar y sail nad yw'r ddeddfwriaeth yn creu nac yn ehangu unrhyw droseddau presennol, ond ar y llaw arall, mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau a fydd, i raddau helaeth, yn estyn neu'n cymhwysu'r troseddau (etholiadol) presennol a nodir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 at ddibenion etholiadau cyffredinol i'r Senedd, i bolau adalw.
252. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn dirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer mecanweithiau i gwestiynu pŵl adalw, yn debyg i drefniadau yn ymwneud â ffeilio deiseb etholiad ar gyfer etholiadau i'r Senedd.

253. Wrth gyflwyno'r rheoliadau dilynol a nodir uchod, rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad pellach o ran nodi'r effaith ar y system gyfiawnder er mwyn deall goblygiadau manylion y rheoliadau hynny ar y system gyfiawnder a fydd yn rhoi'r system adalw ar waith.
254. Mae'r Asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi nodi effaith ar y Llysoedd yng Nghymru a Lloegr o ganlyniad i'r ddyletswydd a osodir arnynt gan y ddeddfwriaeth i hysbysu Llywydd y Senedd pan fo Aelod o'r Senedd yn cael dedfryd o garchar (gan gynnwys dedfrydau wedi eu gohirio). Rhagwelir y bydd yr effaith hon yn fach ac yn ddibwys iawn o ystyried mae'r unig adeg y bydd angen bodloni'r ddyletswydd fydd yr amgylchiadau cyfyngedig iawn hynny pan fo Aelod o'r Senedd yn cael ei euogfarnu ac yn cael dedfryd o garchar am 12 mis neu lai (gan gynnwys dedfrydau wedi eu gohirio)

## 10. Asesiadau fforddiadwyedd

255. Er bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol, ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, dim ond asesiad ariannol yw asesiad fforddiadwyedd. Yn sgil hynny, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu tynnu o asesiad fforddiadwyedd.
256. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â'r asesiad effaith rheoleiddiol, sef rhwng 2026-27 a 2035-36. Mae costau cyfle sy'n gysylltiedig ag amser staff presennol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu heithrio o'r asesiad hwn oherwydd nad ydynt yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol.
257. Mae'r costau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu. Mae'r addasiad hwn wedi'i wneud ar sail amcanestyniadau'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026<sup>25</sup>. Dim ond at 2030-31 yr oedd amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymestyn. Gan fod y rhagolygon yn sefydlogi ar tua 2.0% tuag at ddiwedd cyfnod rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, rhagdybiwyd y bydd y gyfradd hon yn parhau am weddill ein cyfnod arfarnu. Er bod chwyddiant bellach yn gymharol sefydlog, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

### Costau ariannol i Gomisiwn y Senedd rhwng 2026-27 a 2035-36

	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31
--	---------	---------	---------	---------	---------

[Rhagolygon economaidd a chyllidol - Mawrth 2026](#)

<b>Cyfanswm y gost</b>					
Isafswm	28,000	21,000	21,000	21,000	21,000
Uchafswm	111,100	101,100	101,100	101,100	101,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>					
Isafswm	28,600	21,800	22,200	22,700	23,100
Uchafswm	113,300	105,000	107,000	109,000	111,200

	2031-32	2032-33	2033-34	2034-25	2035-36
<b>Cyfanswm y gost</b>					
Isafswm	21,000	21,000	21,000	21,000	21,000
Uchafswm	101,100	101,100	101,100	101,100	101,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>					
Isafswm	23,600	24,100	24,500	25,000	25,500
Uchafswm	113,400	115,700	118,000	120,400	122,800

## 11. Adolygu ar ôl gweithredu

258. Ar hyn o bryd, ni fwriedir cynnal adolygiad ar ôl gweithredu yn achos y Bil hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r ddeddfwriaeth hon mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn rhan o'i ymchwiliad i atebolrwydd Aelodau Unigol. O ran mesurau'r Bil i gryfhau proses safonau'r Senedd, bydd y Senedd, Comisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau yn gyfrifol am fonitro'r effeithiau. Mae'n bosibl y bydd y Senedd yn dymuno cynnal adolygiad ar ôl i'r system adalw gael ei rhoi ar waith a'i defnyddio am y tro cyntaf.
259. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effeithiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth yn ystod gwaith craffu'r Senedd ac wrth roi mesurau'r Bil ar waith. Yn rhan o'r gwaith monitro hwn, bydd yr asesiadau effaith a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu fel y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, gan gynnwys cynnal ailasesiad o effeithiau'r ddeddfwriaeth pan fydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r rheoliadau dilynol a fydd yn rhoi'r system adalw ar waith.

## **Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol**

# **DEDDF SENEDD CYMRU (ATEBOLRWYDD AELODAU AC ETHOLIADAU) 2026**

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) a basiwyd gan Senedd Cymru ar 17 Mawrth 2026 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026. Fe'u lluniwyd gan Grŵp y Prif Weinidog Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn ymwneud â'r Ddeddf fel y cafodd y Cydsyniad Brenhinol.<sup>26</sup> Dylid eu darllen ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar un o ddarpariaethau'r Ddeddf, nis rhoddir.

### **TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF**

3. Mae'r Ddeddf wedi ei rhannu yn 4 Rhan sy'n cynnwys 27 o adrannau ac 1 Atodlen.

### **Rhan 1 – Adalw Aelodau o'r Senedd**

4. Mae Rhan 1 yn cyflwyno system ar gyfer adalw Aelodau o'r Senedd drwy bôl adalw. Pôl yw pôl adalw a gynhelir yn etholaeth Aelod o'r Senedd ynghylch a ddyla'r aelod gael ei ddiswyddo neu ei gadw fel Aelod o'r Senedd. Mae'r Rhan yn gwneud darpariaeth ar gyfer –
  - a. y broses ar gyfer cychwyn pôl adalw (adrannau 2 i 5);
  - b. pennu dyddiad y pôl a hysbysiad cyhoeddus o'r pôl (adrannau 6 a 7);
  - c. yr amgylchiadau pan ganiateir terfynu polau adalw cyn iddynt ddigwydd (adran 8);
  - d. yr etholfraint ar gyfer pleidleisio mewn polau adalw (adran 9);
  - e. rhedeg polau, gan gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch y polau adalw (adrannau 10 ac 11);
  - f. canlyniad polau adalw (adrannau 12 i 14);

---

<sup>26</sup> Gellir canfod newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Ddeddf ers iddi gael y Cydsyniad Brenhinol drwy ddefnyddio'r cyfleuster "Newidiadau i Ddeddfwriaeth" yn [www.legislation.gov.uk/cy/changes](http://www.legislation.gov.uk/cy/changes).

- g. swyddogaethau swyddogion canlyniadau etholaethol (adran 15);
  - h. termau wedi eu diffinio a ddefnyddir yn y Rhan (adran 16); ac
  - i. diwygiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r Rhan (Rhan 1 o'r Atodlen).
5. Mae'r broses o adalw yn cael ei chychwyn os yw un o ddau ddigwyddiad sbardun, A a B, sy'n ymwneud â chamymddygiad gan Aelod o'r Senedd wedi digwydd.
6. Digwyddiad sbardun A yw bod Aelod o'r Senedd, ar ôl dod yn Aelod o'r Senedd, yn cael ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd y mae'r aelod yn cael ei ddeddfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth yn ei chylch (yn ymarferol, am gyfnod o lai na blwyddyn, gan y byddai dedfryd o flwyddyn neu fwy yn arwain at anghymhwysiad awtomatig rhag bod yn Aelod o'r Senedd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006).
7. Digwyddiad sbardun B yw bod y Senedd yn penderfynu gwneud yr Aelod o'r Senedd yn destun pŵl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymhell gwneud yr aelod yn destun pŵl adalw.
8. Ar ôl dod yn ymwybodol bod digwyddiad sbardun wedi digwydd, mae dyletswydd ar y Llywydd i bennu dyddiad ar gyfer pŵl adalw. Rhaid i'r Llywydd hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol dros etholaeth Senedd yr aelod sy'n destun y pŵl adalw am y digwyddiad sbardun ac yna bydd dyletswydd ar y swyddog canlyniadau etholaethol i hysbysu'r cyhoedd am y pŵl adalw. Y swyddog canlyniadau etholaethol sy'n gyfrifol am weinyddu'r pŵl adalw yn unol â gofynion y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 11.
9. Caiff pleidleiswyr yn y pŵl adalw benderfynu cadw neu ddiswyddo'r aelod. Os mai canlyniad y pŵl yw y dylai'r aelod gael ei ddiswyddo, daw sedd yr aelod yn wag. Mae adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer canlyniadau sedd yn dod yn wag o ganlyniad i bŵl adalw o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

## **Rhan 2 – Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd**

10. Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaeth ynghylch safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd sy'n –
- a. ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau'r Senedd gynnwys pwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad a chanddo swyddogaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd (adran 18);
  - b. ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un person nad yw'n Aelod o'r Senedd (y cyfeirir ato fel aelod lleyg ('lay member')) (adran 18);
  - c. ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd ofyn i'r Senedd, drwy gyfrwng cynnig a gyflwynir, sefydlu neu enwi pwyllgor o'r Senedd i ystyried a ddylai cod ymddygiad ar gyfer aelodau fod yn gymwys ac, os felly, sut y dylai fod yn gymwys i ymgeiswyr mewn etholiad i'r Senedd (adran 19);

- d. grymuso Comisiynydd Safonau y Senedd i gynnal ymchwiliadau ar ysgogiad y Comisiynydd ei hun heb gael cwyn ffurfiol oddi wrth unrhyw un yn gyntaf yn honni bod camymddygiad gan aelod (adran 20);
- e. diwygio'r amodau cymhwystra ar gyfer penodi i swydd Comisiynydd Safonau Ymddygiad y Senedd ym Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("Mesur 2009") (adran 21);
- f. diwygio ac ategu darpariaeth ym Mesur 2009 ynghylch ymchwiliadau gan y Comisiynydd (adran 22).

### **Rhan 3 – Rhedeg Etholiadau Senedd Cymru**

11. Mae Rhan 3 yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') i wneud darpariaeth drwy orchymyn ynghylch rhedeg etholiadau Senedd Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006 sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddiben effeithio ar ddychwelyd unrhyw ymgeisydd. Mae hefyd yn egluro cwmpas pŵer Gweinidogion Cymru i ddiffinio terfynau'r gwaharddiad gofynnol ac yn cael gwared ar unrhyw amheuaeth ynghylch pethau eraill y caniateir darparu ar eu cyfer eisoes wrth arfer y pŵer yn adran 13(1) o Ddeddf 2006.

### **Rhan 4 – Cyffredinol**

12. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i'r Ddeddf yn gyffredinol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch y Ddeddf yn dod i rym a'r enw byr.

## **SYLWADAU AR YR ADRANNAU**

### **RHAN 1 – ADALW AELODAU O'R SENEDD**

#### **Adran 1 – Trosolwg**

13. Mae adran 1 yn darparu trosolwg o Ran 1 sy'n cynnwys diffiniad o "pôl adalw" at ddibenion y Ddeddf hon.

#### **Adran 2 – Sut y mae Aelod o'r Senedd yn dod yn destun pôl adalw**

14. Mae adran 2 yn darparu ar gyfer y 'digwyddiadau sbardun' sy'n arwain at aelod yn dod yn destun pôl adalw. Ceir dau ddigwyddiad sbardun: digwyddiad sbardun A a digwyddiad sbardun B.
15. Digwyddiad sbardun A yw bod aelod, ar ôl dod yn aelod, wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd a'i ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth. Nid yw digwyddiad sbardun A ond yn gymwys i euogfarnau a geir ar ôl i berson ddod yn aelod. At ddibenion y Ddeddf hon, mae person yn dod yn aelod pan ddatgenir ei fod wedi ei ddychwelyd ar ddechrau tymor swydd presennol yr aelod; nid yw euogfarnau mewn unrhyw dymhorau blaenorol a gyflawnwyd yn arwain at ddigwyddiad sbardun A yn digwydd (gweler adran 3(4)).
16. Bydd y darpariaethau anghymhwysu ym mharagraff 6 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 yn gymwys i aelod y'i dedfrydir neu y gorchymynnir iddo gael ei garcharu

neu ei gadw'n gaeth am gyfnod amhenodol neu am gyfnod o fwy nag 1 flwyddyn. Bydd unrhyw aelod sy'n cael ei euogfarnu a'i ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu am gyfnod islaw'r trothwy hwn neu nad yw'n sbarduno anghymhwysiad fel arall, yn destun pŵl adalw yn unol ag adran 2(2).

17. Digwyddiad sbardun B yw bod y Senedd yn penderfynu gwneud yr aelod yn destun pŵl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn argymhell bod aelod yn dod yn destun pŵl adalw (is-adran (4)).

### **Adran 3 – Digwyddiad sbardun A: ystyr termau allweddol**

18. Mae adran 3 yn egluro ystyr termau allweddol a ddefnyddir yn adran 2. Mae is-adran (1) yn darparu bod digwyddiad sbardun A yn gymwys i drosedd a gyflawnwyd cyn i'r aelod ddod yn aelod a chyn i adran 2 ddod i rym. Fodd bynnag, er mwyn i ddigwyddiad sbardun A ddigwydd, rhaid i'r aelod gael ei euogfarnu ar neu ar ôl y diwrnod y mae adran 2 yn dod i rym. Mae is-adran (2) yn darparu bod dedfryd neu orchymyn at ddiben digwyddiad sbardun A yn cynnwys dedfryd ohiriedig neu orchymyn gohiriedig, nad yw'n cynnwys aelod yn cael ei remandio yn y ddalfa ac nad yw'n cynnwys aelod yn cael ei gadw'n gaeth o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl. Mae is-adran (3) yn diffinio 'deddfwriaeth iechyd meddwl' at ddibenion digwyddiad sbardun A.

### **Adran 4 – Digwyddiad sbardun A: y llysoedd i hysbysu'r Llywydd**

19. Mae adran 4 yn gymwys mewn perthynas â digwyddiad sbardun A ac yn gosod gofynion ar y llys sy'n gosod dedfryd neu orchymyn o garchar ar aelod o fewn ystyr adran 2(2) (fel y'i heglurir gan adran 3). Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys sy'n gosod y ddedfryd neu'r gorchymyn mewn perthynas ag euogfarn yr aelod hysbysu'r Llywydd am y ddedfryd honno neu'r gorchymyn hwnnw. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys sy'n gwrthdroi euogfarn, dedfryd neu orchymyn ar apêl hysbysu'r Llywydd am y ffaith honno. Mae is-adran (5) yn diffinio "apêl" ac mae is-adran (6) yn diffinio penderfynu apêl, at ddibenion yr adran hon. Mae is-adran (7) yn diffinio "ei gwrthdroi neu ei wrthdroi ar apêl" at ddibenion yr adran hon. Nid yw'r naill na'r llall o'r dyletswyddau a osodir ar y Llys gan yr adran hon yn gymwys os yw sedd yr aelod, pan fydd y ddyletswydd yn codi, wedi dod yn wag.

### **Adran 5 – Digwyddiad sbardun B: canllawiau adalw**

20. Mae adran 5 yn ymwneud â digwyddiad sbardun B. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad lunio canllawiau drafft ("canllawiau adalw") am y materion sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor hwnnw wrth benderfynu a ddylid gwneud aelod yn destun pŵl adalw. Wrth lunio'r canllawiau hynny, rhaid i'r Pwyllgor ystyried cynnwys enghreifftiau o ymddygiad neu fathau o ymddygiad a allai arwain at argymhelliad i adalw, yn unol ag is-adran (10). Mae is-adran (3) yn darparu, os nad oes canllawiau adalw wedi eu dyroddi, fod rhaid i'r Pwyllgor lunio canllawiau o'r fath a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a nodir gofynion pellach yn ymwneud ag ymgynghori yn is-adran (9). Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor osod y canllawiau drafft gerbron y Senedd. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor ddyroddi canllawiau os cânt eu cymeradwyo

drwy benderfyniad gan y Senedd (ond ni all eu dyroddi cyn i'r gymeradwyaeth honno gael ei rhoi).

21. Yn unol ag adran 2(4), at ddiben digwyddiad sbardun B, ni fydd aelod ond yn dod yn destun pŵl adalw os yw'r Senedd yn penderfynu gwneud yr aelod yn destun pŵl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor yn argymhell hynny. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i'r canllawiau adalw cyn argymhell bod aelod yn dod yn destun pŵl adalw, ac mae adran 5(1) yn darparu na all y Pwyllgor argymhell bod aelod yn dod yn destun pŵl adalw oni bai bod canllawiau adalw wedi eu dyroddi o dan yr adran hon. Mae hyn yn golygu, hyd nes y bydd canllawiau adalw wedi eu dyroddi yn unol ag adran 5, na all digwyddiad sbardun B ddigwydd (ond gweler hefyd adran 14).
22. Mae is-adran (5) yn galluogi'r Pwyllgor i ddisodli'r canllawiau adalw, ac mae is-adran (11) yn darparu bod y canllawiau yn cael effaith hyd nes y cânt eu disodli. Mae is-adranau (6) a (7) yn cynnwys gofynion mewn perthynas ag unrhyw ganllawiau sy'n disodli canllawiau sydd wedi eu dyroddi. Mae'r gofynion ymgynghori yn is-adran (9) hefyd yn gymwys. Ar ôl iddynt gael eu dyroddi, ni ellir ond disodli canllawiau ac nid eu dirymu, sy'n sicrhau na ellir "diffodd" digwyddiad sbardun B heb i'r Senedd wneud deddfwriaeth sylfaenol bellach.

### **Adran 6 – Dyletswydd y Llywydd i bennu dyddiad ar gyfer pŵl adalw a rhoi hysbysiad o ddigwyddiad sbardun**

23. Mae adran 6 yn nodi'r gofynion ar y Llywydd unwaith y mae'r Llywydd wedi dod yn ymwybodol bod digwyddiad sbardun wedi digwydd. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd bennu dyddiad ar gyfer pŵl adalw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol bod digwyddiad sbardun wedi digwydd mewn perthynas ag aelod a hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol ar gyfer yr etholaeth berthnasol am y ffaith honno. Rhaid i'r dyddiad y mae'r Llywydd yn ei bennu ar gyfer y pŵl fod yn unol ag is-adran (4) a rhaid i'r hysbysiad i'r swyddog canlyniadau etholaethol fod yn unol ag is-adran (5).
24. Mae is-adran (2) yn nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd i bennu dyddiad ar gyfer y pŵl adalw yn gymwys: pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd bennu dyddiad o fewn 6 mis i etholiad cyffredinol cyffredin nesaf y Senedd sydd wedi ei drefnu; ar ôl etholiad o'r fath; os yw aelod eisoes yn destun pŵl adalw; neu os yw sedd aelod eisoes wedi dod yn wag. At ddiben is-adran 2(c) mae is-adran (3) yn diffinio'r term "yn destun pŵl adalw". Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau na all aelod ddod yn destun pŵl adalw pan fydd eisoes yn destun pŵl adalw.

### **Adran 7 – Hysbysiad cyhoeddus o bŵl adalw**

25. Mae adran 7 yn nodi'r gofynion a osodir ar swyddog canlyniadau etholaethol ar ôl cael hysbysiad o dan adran 6 bod dyddiad ar gyfer pŵl adalw mewn perthynas ag aelod o'r etholaeth honno wedi ei bennu. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog canlyniadau etholaethol sydd wedi cael hysbysiad o dan adran 6 roi hysbysiad cyhoeddus o bŵl adalw yn unol â

rheoliadau a wneir o dan adran 11. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau etholaethol anfon hysbysiad o'r pŵl adalw at unrhyw ddisgrifiadau o bersonau a bennir yn is-adran (2)(a) a (b) sy'n cynnwys personau sydd i'w pennu mewn rheoliadau o dan adran 11. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gynnwys gwybodaeth am y digwyddiad sbardun sydd wedi digwydd mewn perthynas â'r aelod.

### **Adran 8 – Terfynu pŵl adalw yn gynnar**

26. Mae adran 8 yn pennu'r amgylchiadau a fydd yn cael yr effaith o ddod â phroses y pŵl adalw i ben yn gynnar h.y. cyn bod pŵl wedi ei gynnal a bod hysbysiad o'r canlyniad wedi ei roi, ac yn eu henwi'n ddigwyddiadau terfynu cynnar A, B ac C. Mae is-adran (1) yn darparu mai dim ond ar ôl i hysbysiad y Llywydd o dan adran 6(1) gael ei roi a chyn i'r hysbysiad o ganlyniad y pŵl adalw o dan adran 12(2)(d) gael ei roi y gall digwyddiadau terfynu cynnar ddigwydd.
27. Y digwyddiadau terfynu cynnar yw:
- Digwyddiad terfynu cynnar A – bod y Llywydd wedi cynnig dyddiad ar gyfer cynnal etholiad cyffredinol eithriadol yn unol ag adran 5(1) o Ddeddf 2006.
  - Digwyddiad terfynu cynnar B – mae sedd yr aelod sy'n destun yr adalw yn dod yn wag felly nid oes unrhyw aelod i'w adalw, am fod yr aelod yn ymddiswyddo er enghraifft.
  - Digwyddiad terfynu cynnar C – pan fo digwyddiad sbardun A wedi digwydd, mae'r ddeddfryd neu'r euogfarn sy'n arwain at ddigwyddiad sbardun A yn digwydd yn cael ei gwrthdroi ar apêl (o fewn ystyr adran 4(7)).
28. Pan fo unrhyw un o'r digwyddiadau terfynu cynnar yn digwydd, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol perthnasol fod yr adran hon yn gymwys a phennu pa un o'r digwyddiadau terfynu cynnar sydd wedi digwydd. Pan geir hysbysiad o'r fath ni chaiff y swyddog canlyniadau etholaethol gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r broses adalw ar ôl cael hysbysiad y Llywydd o dan is-adran (5) ac eithrio'r camau o dan is-adran (7) ac unrhyw gam sy'n ofynnol neu a ganiateir o dan reoliadau a wneir o dan adran 11. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau etholaethol gymryd yr holl gamau angenrheidiol i derfynu proses y pŵl adalw a rhoi hysbysiad cyhoeddus bod y broses honno wedi ei therfynu yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 11. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd osod yr hysbysiad a roddir o dan is-adran (5) gerbron y Senedd oni bai bod y Senedd wedi ei diddymu yn achos digwyddiad terfynu cynnar A.

### **Adran 9 – Hawlogaeth i bleidleisio mewn pŵl adalw**

29. Mae adran 9 yn darparu mai'r personau a chanddynt hawlogaeth i bleidleisio mewn pŵl adalw yw'r rhai, ar ddiwrnod y pŵl, y byddai ganddynt hawlogaeth i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd ac sydd wedi eu cofrestru yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd yr aelod sy'n destun y pŵl adalw.

### **Adran 10 – Polau adalw i'w rhedeg drwy bleidlais gudd**

30. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i bôl adalw gael ei redeg drwy bleidlais gudd ac mae'n pennu geiriad y cwestiwn a'r ymatebion sydd i'w cynnwys ar y papur pleidleisio.

### **Adran 11 – Rheoliadau ynghylch polau adalw**

31. Mae adran 11 yn bŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch rhedeg polau adalw, cwestiynu pôl adalw a darpariaeth bellach ynghylch hysbysiadau neu ddogfennau eraill, drwy reoliadau. Mae is-adran (2) yn nodi y caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth:
- ynghylch cofrestru etholwyr,
  - ynghylch gosod terfynau ar dreuliau ymgyrchu a rhoddion mewn pôl adalw,
  - ar gyfer cyfuno polau.
32. Mae is-adran (3) yn nodi'r math o ddarpariaeth y caniateir ei wneud o dan is-adran (1) gan gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn ymwneud â chymhwyso ac addasu cyfraith etholiadol a chreu troseddu.
33. Mae is-adran (4)(a) yn nodi na chaiff rheoliadau o dan adran 11 gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (h.y. "y Gweinidog priodol") yn ofynnol ar ei chyfer o dan unrhyw un o baragraffau 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru, oni bai bod darpariaeth o'r fath mewn rheoliadau o dan yr adran hon mewn cysylltiad â pherson a bennir yn is-adran (5).
34. Mae is-adran (4)(b) hefyd yn darparu na chaiff rheoliadau o dan adran 11 gynnwys darpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgyngori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru, oni bai bod darpariaeth o'r fath mewn rheoliadau o dan yr adran hon mewn cysylltiad â'r rhestr o bersonau a bennir yn is-adran (5).
35. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 11 yn ddarostyngedig i ofynion ymgyngori a chydsyniad sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn Etholiadol. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgyngori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1). Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gael cydsyniad y Comisiwn Etholiadol pan fyddant yn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch yr hyn sydd i'w drin a'r hyn nad yw i'w drin fel treuliau neu roddion ymgyrchu mewn ymgyrch pôl adalw neu pan fyddant yn gosod y terfynau sy'n gymwys i dreuliau neu roddion ymgyrchu mewn pôl adalw oni bai bod is-adran (8) yn gymwys.
36. Mae is-adran (10) yn darparu bod y rheoliadau yn is-adran (1) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

### **Adran 12 – Canlyniad pŵl adalw**

37. Mae adran 12 yn nodi'r camau y mae rhaid eu cymryd ar ôl i'r pleidleisio mewn pŵl adalw ddod i ben ond nid yw'n gymwys os yw unrhyw un o'r digwyddiadau terfynu cynnar wedi digwydd a bod hysbysiad i'r perwyl hwnnw wedi ei roi. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau etholaethol gymryd camau amrywiol mewn perthynas â chanlyniad y pŵl, yn unol â rheoliadau o dan adran 11. Rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol bennu canlyniad y pŵl drwy gyfeirio at gyfrif y pleidleisiau. Yna rhaid cyhoeddi'r canlyniad yn gyhoeddus, ac wedi hynny ddatgan y canlyniad yn unol ag is-adran (3)(a) a (b) h.y. y bydd yr aelod naill ai'n cael ei ddiswyddo neu'n cael ei gadw fel aelod. Rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol hefyd hysbysu'r Llywydd yn ysgrifenedig am ganlyniad y pŵl adalw a'r datganiad.
38. Mae is-adran (3) yn darparu bod aelod wedi ei ddiswyddo os bwriwyd y mwyafrif o'r pleidleisiau o blaid yr ateb cyntaf ar y papur pleidleisio a nodir yn adran 10(4) a bod aelod yn cael ei gadw os bwriwyd y mwyafrif o'r pleidleisiau o blaid yr ail ateb ar y papur pleidleisio a nodir yn adran 10(5) neu os bwriwyd nifer cyfartal o bleidleisiau o blaid y naill ateb a'r llall ar y papur pleidleisio. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd osod unrhyw hysbysiad a geir oddi wrth y swyddog canlyniadau etholaethol sy'n cynnwys manylion am ganlyniad y pŵl adalw gerbron y Senedd.

### **Adran 13 – Effaith datganiad bod Aelod o'r Senedd wedi ei ddiswyddo**

39. Mae adran 13 yn darparu bod sedd yr aelod yn dod yn wag unwaith y mae'r swyddog canlyniadau etholaethol yn gwneud datganiad o dan adran 12(2)(c)(i) fod yr aelod sy'n ddarostyngedig i'r pŵl adalw i'w ddiswyddo. O dan is-adran 13(4), nid yw'r sedd wag yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Senedd cyn i'r Llywydd gael ei hysbysu amdani o dan baragraff 12(2)(d). Caiff y sedd wag ei llenwi yn unol ag adran 11 o Ddeddf 2006. Mae adran 11 yn darparu, o dan y system gyfrannol rhestr gaeedig, os bydd sedd a ddelir gan aelod a gafodd ei ddychwelyd o restr plaid yn dod yn wag, bod y sedd wag i'w llenwi gan y person â'r safle uchaf ar y rhestr sy'n bodloni'r 'amodau' perthnasol yn adran 11 ac nad yw eisoes wedi ei ddychwelyd. Os nad oes ymgeiswyr yn weddill ar restr y blaid sy'n gymwys ar yr adeg honno i lenwi'r sedd wag, neu os cafodd yr aelod y mae ei sedd wedi dod yn wag ei ddychwelyd fel ymgeisydd unigol, bydd y sedd yn aros yn wag hyd yr etholiad cyffredinol nesaf.

### **Adran 14 – Nid effeithir ar ddilysrwydd pŵl adalw gan annilysrwydd yn nhrefodion y Senedd**

40. Mae adran 14 yn darparu nad effeithir ar ddilysrwydd pŵl adalw gan unrhyw ddiffyg yn nhrefodion y Senedd sy'n arwain at ddigwyddiad sbardun B yn digwydd, ac nad effeithir ar ddilysrwydd y pŵl adalw ychwaith gan unrhyw ddiffyg mewn trafodion sy'n gysylltiedig â dyroddi canllawiau adalw.

### **Adran 15 – Swyddogaethau swyddogion canlyniadau etholaethol**

41. Mae adran 15 yn nodi swyddogaethau'r swyddog canlyniadau etholaethol mewn perthynas â'r pŵl adalw. "Swyddog canlyniadau etholaethol" yw'r

person a ddynodir yn swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholaeth yn unol â gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006.

### **Adran 16 – Dehongli Rhan 1**

42. Mae adran 16 yn diffinio geiriau a thermau penodol a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Ddeddf.

### **Adran 17 – Darpariaeth ganlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1**

43. Mae adran 17 yn cyflwyno Rhan 1 o'r Atodlen sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil. Yn benodol, mae'r diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn sicrhau bod dyletswyddau presennol y Swyddog Cofrestru mewn perthynas â chyhoeddi'r cofrestrau etholiadol yn gymwys, pan fo hynny'n briodol, i bolau adalw. Mae'r diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn sicrhau, pan fo hynny'n briodol, fod swyddogaethau goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol yn gymwys i bolau adalw.

## **RHAN 2 – SAFONAU YMDDYGIAD AELODAU O'R SENEDD**

### **Adran 18 – Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

44. Mae adran 18 yn diwygio adran 28 o Ddeddf 2006. Effaith y diwygiadau hynny yw galluogi'r Senedd i benodi unigolion nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor hwnnw. Gelwir yr unigolion hynny yn aelodau lleyg. Mae'r adran hon hefyd yn dileu'r gofyniad mai'r Pwyllgor yn unig a gaiff benodi is-bwyllgor o bwyllgor Senedd. Effaith hyn yw y caiff y Rheolau Sefydlog ddarparu i is-bwyllgor gael ei benodi gan y Pwyllgor neu drwy ryw ffordd arall. Mae adran 18 hefyd yn mewnosod adrannau newydd 30A a 30B yn Neddf 2006.

#### *Adran 30A – Pwyllgor Safonau Ymddygiad*

45. Mae adran newydd 30A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd fod â phwyllgor sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd ("aelodau") fel un o'i phwyllgorau. Mae'r adran hon yn darparu bod y Pwyllgor i'w alw y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ond hefyd yn darparu y gall y pwyllgor gael ei alw wrth enw arall y mae'r Senedd yn ei ddewis. Mae is-adran (2) yn pennu bod rhaid i'r Pwyllgor fod â swyddogaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad aelodau fel y'u pennir yn y Rheolau Sefydlog a hefyd yn darparu y caiff y Pwyllgor fod â swyddogaethau eraill os yw'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer hynny.

46. Mae is-adran (3) yn darparu bod nifer aelodau'r Pwyllgor i'w nodi yn y Rheolau Sefydlog, gan alluogi'r Senedd i benderfynu ar union nifer aelodau'r Pwyllgor hwnnw.

47. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i'r Rheolau Sefydlog ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o'r Pwyllgor yn aelod lleyg (er bod adran 18(4) o'r Bill yn darparu nad yw hyn yn orfodol hyd 7 Tachwedd 2027). Mae hyn hefyd yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth yn adran newydd 30B(1) sy'n datgan na chaiff nifer yr aelodau lleyg fod yn fwy na nifer aelodau'r Pwyllgor sy'n

Aelodau o'r Senedd. Diffinnir aelod lleyg yn is-adran (5), at ddiben yr adran hon, fel aelod nad yw'n Aelod o'r Senedd etholedig.

48. Mae is-adrannau (6) i (10) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y ddarpariaeth y caiff ac y mae rhaid i'r Rheolau Sefydlog ei chynnwys o ran llywodraethiant y Pwyllgor a'i aelodau lleyg.
49. Yn benodol, mae is-adran (6) yn darparu y caiff Rheolau Sefydlog y Senedd wneud darpariaeth:
  - a. sy'n gwahardd aelodau lleyg o drafodion y Pwyllgor, neu is-bwyllgor o'r Pwyllgor hwnnw (mater i'r Senedd yw penderfynu ar yr amgylchiadau pan ddylai hynny ddigwydd);
  - b. ar gyfer aelodaeth unrhyw is-bwyllgor(au) o'r Pwyllgor (a gaiff gynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor);
  - c. i aelodau o unrhyw is-bwyllgor gael eu penodi heblaw gan y Pwyllgor ei hun, sy'n caniatáu proses wahanol ar gyfer penodi aelodau ac i'r Rheolau Sefydlog nodi'r broses honno;
  - d. sy'n caniatáu i unrhyw is-bwyllgor a sefydlir at ddibenion cynnal adolygiadau o drafodion y Pwyllgor neu is-bwyllgor, neu apelau yn erbyn trafodion o'r fath, sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd, gynnwys un neu ragor o aelodau lleyg yn unig (sy'n galluogi'r Senedd i sefydlu trefn apelio ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â thrafodion ynghylch ymddygiad Aelod o'r Senedd).
50. Mae is-adran (7) yn nodi darpariaethau y mae rhaid i'r Rheolau Sefydlog eu gwneud mewn perthynas â hawliau cyfranogiad a phleidleisio aelodau lleyg mewn trafodion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau (er bod hyn yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth yn adran 18(4) nad yw darpariaeth o'r fath yn orfodol tan 7 Tachwedd 2027 neu hyd nes y gwneir darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog ynghylch cynnwys aelodau lleyg ar y Pwyllgor, pa un bynnag sydd gynharaf). Rhaid caniatáu i aelodau lleyg gael yr un hawliau cyfranogi a phleidleisio ag Aelodau o'r Senedd pan fo trafodion y pwyllgor yn ymwneud ag ymddygiad Aelod o'r Senedd a rhaid i'r Rheolau Sefydlog bennu nifer yr aelodau lleyg a'r aelodau eraill sy'n ofynnol er mwyn i'r trafodion hynny ffurfio cworwm. Mae is-adran (8) yn darparu, ar gyfer trafodion eraill gan y pwyllgor hwnnw, mai mater i ddisgresiwn y Senedd, i'w nodi yn y Rheolau Sefydlog, yw a ddylai aelodau lleyg gael hawliau cyfranogi a phleidleisio ynghyd â phennu nifer yr aelodau lleyg a'r aelodau eraill sy'n ofynnol er mwyn i'r trafodion hynny ffurfio cworwm. Mae is-adran (9) yn gosod cyfyngiad ar ddisgresiwn y Senedd drwy bennu na chaniateir i aelodau lleyg gyfranogi na phleidleisio mewn trafodion sy'n ymwneud â chraffu ar ddeddfwriaeth.
51. Os yw'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod is-bwyllgor o'r Pwyllgor wedi ei sefydlu sy'n cynnwys aelodau lleyg yn unig at ddibenion cynnal adolygiadau o drafodion sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd fel y'i caniateir gan is-adran (6)(c), neu apelau yn erbyn trafodion o'r fath, mae is-adran (10) yn datgymhwysu is-adran (7) oherwydd yn y sefyllfa honno ni fyddai unrhyw

Aelodau o'r Senedd ar yr is-bwyllgor hwnnw ac felly ni fyddai gofyniad am gydraddoldeb o ran hawliau pleidleisio a chyfranogi.

*Adran 30B – Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad etc.*

52. Mae adran newydd 30B yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau lleyg gan gynnwys sut y maent i gael eu recriwtio, eu penodi, ac yn peidio â dal swydd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer terfynu penodiad aelod lleyg yn awtomatig o dan amgylchiadau penodol.
53. Fel y nodir yn adran newydd 30A(3) a (4), mater i'r Senedd ei bennu yn y Rheolau Sefydlog yw nifer yr aelodau a fydd gan y Pwyllgor, gan gynnwys nifer yr aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i isafswm o un. Cyfyngir ar y disgrisiwn hwn gan adran 30B(1) sy'n darparu na chaiff y Rheolau Sefydlog ganiatáu penodi mwy o aelodau lleyg nag o Aelodau o'r Senedd etholedig i'r Pwyllgor hwnnw.
54. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol penodi aelodau lleyg drwy benderfyniad gan y Senedd ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond â chytundeb y Llywydd, ac unwaith y bydd unrhyw gamau gweithdrefnol sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog wedi eu cwblhau, y gellir cyflwyno'r cynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod lleyg sy'n cael ei gynnig ar gyfer ei benodi gan benderfyniad yn is-adran (3) fod wedi ei ddewis ar sail teilyngdod yn seiliedig ar broses o gystadleuaeth deg ac agored. Mater i'r Senedd fydd penderfynu ar fanylion y broses recriwtio.
55. Mae is-adran (5) yn darparu y bydd y cyfnod swydd ar gyfer aelod lleyg yn gyfnod penodol o ddim mwy na chwe blynedd ac y caiff y cyfnod hwn ddod i ben ar ôl diddymu'r Senedd. Mae hynny'n golygu y gall penodiad aelod lleyg barhau er gwaethaf y ffaith bod y Senedd wedi ei diddymu a bod Senedd newydd yn cael ei ffurfio. Mater i'r Senedd yw pennu telerau ac amodau penodi eraill a chaniateir eu nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae is-adran (10) yn darparu y caiff unigolyn ddal swydd fel aelod lleyg am uchafswm o ddau dymor ac nad oes angen i'r tymhorau hynny fod yn rhai olynol.
56. Mae is-adran (6) yn darparu, os yw'r Senedd yn gwneud darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i sefydlu is-bwyllgor adolygu neu apelio fel y'i disgrifir yn adran 30A(6)(c), fod rhaid i'r "pwll" o aelodau lleyg a benodir o dan adran 30B(2) gynnwys person sy'n meddu ar gymhwyster cyfreithiol. Mae is-adran (7) yn egluro bod person yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol at ddibenion is-adran (6) os oes ganddo gymhwyster cyffredinol o fewn yr ystyr a roddir i "general qualification" yn adran 71(3)(c) o Ddeddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 (p. 41).
57. Mae is-adran (8) yn nodi y bydd person wedi ei anghymhwysu rhag cael ei benodi i fod yn aelod lleyg os yw'n dal unrhyw un neu ragor o'r swyddi a bennir yn is-adran (9), neu os yw erioed wedi dal swydd a bennir ym mharagraffau (a) i (h) o is-adran (9).

58. Mae is-adran (11) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo person yn peidio, yn awtomatig, â dal swydd fel aelod lleyg, gan gynnwys darpariaeth benodol na all person barhau i fod yn aelod lleyg os yw'n ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol ar gyfer y Senedd (ar ôl i'r cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad o dynnu ymgeisyddiaeth yn ôl ddod i ben), nac os yw'n dod yn anghymwys i'w benodi yn aelod lleyg yn unol ag is-adran (8). Mae'r cyfeiriad at y cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad o dynnu ymgeisyddiaeth yn ôl yn gyfeiriad at unrhyw gyfnod o'r fath fel y'i diffinnir mewn Gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006.
59. Mae is-adran (12) yn nodi ffyrdd eraill y gall aelod lleyg beidio â dal y swydd; drwy ymddiswyddo neu drwy gael ei ddiswyddo drwy benderfyniad y Senedd, a gytunwyd drwy fwyafrif o ddwy ran o dair. Mae is-adran (13) yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond â chydsyniad y Llywydd, a dim ond ar ôl cwblhau unrhyw gamau gweithdrefnol sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog, y caniateir cyflwyno unrhyw benderfyniad o'r fath. Mae is-adran (14) yn nodi bod rhaid i'r Rheolau Sefydlog gynnwys proses lle y mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i unrhyw gŵyn a wneir am gamymddygiad aelod lleyg a dyfarniad yn cael ei wneud arni (er bod adran 18(4) o'r Bil yn darparu nad yw darpariaeth o'r math hwn yn orfodol hyd 7 Tachwedd 2027 neu hyd nes y bydd darpariaeth wedi ei gwneud yn y Rheolau Sefydlog ynghylch penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor, pa un bynnag sydd gynharaf).
60. Mae is-adran (15) yn darparu y caiff Comisiwn y Senedd bennu'r gydnabyddiaeth ariannol ac unrhyw lwfansau sydd i'w talu i aelodau lleyg ac y caiff wneud y taliadau hynny iddynt.
61. Mae is-adran (16) yn egluro, at ddibenion adran 30B, fod aelod lleyg ("*lay member*") yn cynnwys aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac aelod lleyg o is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei hun.

### **Adran 19 – Adroddiad ar gymhwyso cod ymddygiad i ymddygiad pan oedd Aelod o'r Senedd yn ymgeisydd mewn etholiad**

62. Mae adran 19 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig sy'n cynnig bod y Senedd yn sefydlu neu'n enwi pwyllgor i gynnal ymchwiliad er mwyn ystyried a ddylai cod ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd fod yn gymwys ac, os felly, sut y dylai fod yn gymwys i ymddygiad aelod ar adeg pan oedd yr aelod yn ymgeisydd mewn etholiad i'r Senedd. Rhaid i'r cynnig hefyd gynnig bod rhaid cwblhau adroddiad ar yr ymchwiliad a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn deddfu'r Ddeddf hon ac mewn unrhyw achos o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw.
63. Os yw pwyllgor a sefydlir neu a enwir o dan y cynnig yn gosod adroddiad ar ei adolygiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n nodi eu hymateb i'r adroddiad.

## **Adran 20 – Pŵer Comisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun**

64. Mae adran 20 yn diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('Mesur 2009') drwy fewnosod adran newydd 10A.

### *10A – Pŵer y Comisiynydd i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun*

65. Mae adran newydd 10A yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') i ymchwilio i ymddygiad Aelod o'r Senedd ar ei ysgogiad ei hun pan fo'r Comisiynydd yn fodlon bod y trothwy y darperir ar ei gyfer yn is-adran (1) wedi ei fodloni. Mae'r trothwy y mae rhaid ei fodloni yn cynnwys, yn is-adran (1)(b), ofyniad bod rhaid i'r Comisiynydd fod yn fodlon bod unrhyw amodau eraill (ac eithrio'r hyn a bennir yn is-adran (1)(a)) - y caniateir eu nodi yn y Rheolau Sefydlog neu mewn rheolau a wneir gan y Senedd - wedi eu bodloni cyn i ymchwiliad o'r fath gael ei gychwyn. Mae hyn yn galluogi'r Senedd i sefydlu'r rheolau hynny ac mae'r ddarpariaeth yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r mathau o reolau y caiff y Senedd eu gwneud.

66. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi adroddiad i'r Senedd ar ganlyniad ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymchwiliadau a'r adroddiad gael eu cynnal yn unol ag unrhyw ddarpariaethau a wneir gan y Rheolau Sefydlog a'r rheolau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau'r Comisiynydd. Mae is-adran (4) yn darparu disgrisiwn i'r Comisiynydd i benderfynu pryd a sut i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun ac adrodd ar ei ganlyniad, yn ddarostyngedig i'r gofynion yn is-adrannau (1) a (3). Mae is-adran (5) yn darparu y caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun heb gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd os oes rheolau wedi eu gwneud yn unol ag is-adran 3(b) sy'n nodi'r amgylchiadau y caiff hynny ddigwydd odanynt. Mae is-adran (6) yn darparu, os yw'r Comisiynydd yn terfynu ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun yn unol ag is-adran (5), fod rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r Aelod o'r Senedd sydd wedi bod yn destun ymchwiliad yn ysgrifenedig, gan roi'r rhesymau dros derfynu'r ymchwiliad. Mae is-adran (7) yn darparu na chaiff unrhyw adroddiad a wneir gan y Comisiynydd i'r Senedd ar ganlyniad ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun gynnwys argymhelliad ynghylch pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei osod ar Aelod o'r Senedd: daw sancsiynau o fewn cylch gwaith y Senedd a'i Phwyllgor Safonau Ymddygiad, yn seiliedig ar adroddiad y Comisiynydd.

67. Mae is-adran (8) yn darparu, os daw'r Comisiynydd yn ymwybodol, wrth gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun, o unrhyw amgylchiadau sy'n arwain at faterion o egwyddor neu o arfer cyffredinol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Clerc o dan adran 138 o Ddeddf 2006 (mai'r Clerc sydd i fod yn brif swyddog cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn), ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd fynegi'r amgylchiadau hynny mewn ysgrifen i'r Clerc.

68. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog nodi'r manylion o ran sut y bydd ymchwiliadau'r Comisiynydd ar ei ysgogiad ei hun yn gweithredu. Mae is-adran (10) yn cadarnhau, at ddibenion y Comisiynydd yn ystyried a ddigwyddodd unrhyw ymddygiad ar "adeg berthnasol" yn unol ag adran newydd 10A(1)(a), fod hyn yn golygu adeg pan oedd y gofyniad

perthnasol (er enghraifft, i wneud datganiad, neu i ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd cymwys) mewn grym. Mae'r is-adran hon yn cadarnhau nad yw o bwys a ddigwyddodd yr ymddygiad cyn i'r darpariaethau yn 10A ddod i rym neu ar ôl hynny.

### **Adran 21 - Comisiynydd Safonau y Senedd: cymhwystra**

69. Mae adran 21 yn diwygio Mesur 2009 drwy ychwanegu categorïau o bersonau nad ydynt yn gymwys i'w penodi'n Gomisiynydd. Gan ystyried y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli ym Mesur 2009 a'r diwygiadau y mae'r Ddeddf hon yn eu gwneud i'r darpariaethau hynny, nid yw person a benodir neu a benodwyd i swyddi gwleidyddol penodol a restrir yn adran 1(3)(a)-(bd) yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd tra bo'n dal un o'r swyddi hynny nac ar unrhyw adeg ar ôl hynny. Ychwanegir dau gategori pellach o bersonau sy'n anghymwys tra bônt yn dal swydd/penodiad ac am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl hynny, sef: person sy'n cael ei gyflogi gan Aelod o'r Senedd i wneud gwaith sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gwleidyddol yr aelod (neu sydd wedi ei gyflogi yn y fath fodd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith) a pherson sy'n cael ei gyflogi gan blaid wleidyddol gofrestrdig (neu sydd wedi ei gyflogi yn y fath fodd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith) (rhestrir y rhain yn adran 1(3)(c)-(j), ac mae'r rhai a restrir yn adran 1(3)(g)-(j) yn cael eu mewnosod gan y Ddeddf hon). Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod person a benodir i swyddi gwleidyddol penodol neu berson sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol (a restrir yn adran 1(8)(aa)-(e) o Fesur 2009) yn peidio â chael ei benodi'n Gomisiynydd pan fo'n cael ei benodi neu ei gymryd ymlaen.

### **Adran 22 - Comisiynydd Safonau y Senedd - ymchwiliadau**

70. Mae adran 22 yn diwygio Mesur 2009 drwy fewnosod adran newydd 10B.

#### *10B - Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch ymchwiliadau*

71. Mae adran newydd 10B yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i gyhoeddi gwybodaeth benodedig ynghylch ymchwiliadau o dan adran 10 a 10A o Fesur 2009. Nodir yr wybodaeth y caiff y Comisiynydd ei chyhoeddi yn is-adran (1). Mae is-adran (3) yn pennu'r wybodaeth na chaniateir ei chyhoeddi: enw'r person a wnaeth y gŵyn neu wybodaeth a fyddai'n galluogi'r person i gael ei enwi; unrhyw dystiolaeth a gafwyd gan y Comisiynydd yn ystod yr ymchwiliad; unrhyw farn, casgliad, neu ddynodiad ynghylch a oes sail i'r gŵyn.

72. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am degwch, yr angen i osgoi rhagfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos troseddol a'r angen i osgoi niwed i unrhyw berson, cyn cyhoeddi gwybodaeth o dan adran 10B.

73. Mae is-adran (5) yn rhoi pŵer i'r Senedd i nodi yn y Rheolau Sefydlog ac mewn rheolau sy'n ymwneud ag ystyried cwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, categorïau o ymchwiliad na chaniateir cyhoeddi mewn cysylltiad â hwy wybodaeth y caniateir ei chyhoeddi o dan adran 10B.

74. Mae is-adran (6) yn egluro nad yw'r pŵer a roddir i'r Comisiynydd gan adran 10B yn cyfyngu ar unrhyw bwerau eraill sydd gan y Comisiynydd i ddatgelu neu gyhoeddi gwybodaeth.

*Diwygiadau amrywiol eraill i'r Mesur*

75. Mae adrannau 22(3)-(7) o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau amrywiol eraill i Fesur 2009.
76. Mae adran 11 wedi ei diwygio er mwyn gwneud darpariaeth i alluogi'r Comisiynydd i gymryd tystiolaeth gan dyst drwy gyswllt sain byw neu gyswllt fideo byw ac i'w gwneud yn ofynnol i dystiolaeth gael ei rhoi mewn ysgrifen, wedi ei gwirhau drwy ddatganiad o wirionedd. Mae adran 22(7) yn mewnosod diffiniad o'r termau hynny yn adran 20 (dehongli) o Fesur 2009.
77. Mae adran 12 wedi ei diwygio er mwyn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddyroddi hysbysiadau tystion drwy ddulliau electronig ac i gael gwybodaeth a dogfennau drwy ddulliau electronig at ddibenion cynnal ymchwiliad. Mae hefyd yn creu pŵer i ddyroddi hysbysiad mewn perthynas â'r pŵer newydd yn adran 11 i wneud gwybodaeth mewn ysgrifen yn ofynnol. Mae adran 22(6) yn diwygio adran 15 o Fesur 2009 er mwyn darparu darpariaethau gorfodi cyfatebol.
78. Mae adran 13 wedi ei diwygio er mwyn caniatáu i'r Comisiynydd weinyddu llw i gyfieithydd neu ddehonglydd ac i'w gwneud yn ofynnol i gyfieithydd neu ddehonglydd dyngu'r llw pan fydd y Comisiynydd yn defnyddio ei wasanaethau wrth gymryd tystiolaeth gan dyst.

**Adran 23 - Mân ddarpariaeth a darpariaeth ganlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2**

79. Mae adran 23 yn cyflwyno Rhan 2 o'r Atodlen sy'n gwneud mân ddarpariaeth a darpariaeth ganlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2. Yn benodol, mae Rhan 2 yn diwygio Mesur 2009 gyda'r effaith bod swyddogaethau'r Comisiynydd yn cynnwys yn benodol gael hunanatgyfeiriad oddi wrth aelod am ei ymddygiad ei hun a bod rhaid ymchwilio i atgyfeiriad o'r fath (paragraff 5(3) o'r Atodlen).

**RHAN 3 - RHEDEG ETHOLIADAU SENEDD CYMRU**

**Adran 24 - Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau'r Senedd etc.**

80. Mae adran 24 yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006. Mae'r diwygiad yn is-adran (3) yn mewnosod is-adrannau newydd (2A) a (2B) yn adran 13. Mae is-adran (2A) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud darpariaeth, o'r math y caniateir ei wneud o dan is-adran (1)(a) o adran 13 o Ddeddf 2006, ynghylch rhedeg etholiadau'r Senedd, sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddiben effeithio ar ddychwelyd unrhyw ymgeisydd. Yn is-adran newydd (2B) ceir rhestr o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud wrth gyflawni'r ddyletswydd o dan is-adran (2A). Mae is-adran 24(4) yn ychwanegu darpariaeth eglurhaol er mwyn osgoi amheuaeth ("For the avoidance of doubt") sy'n ymwneud â chreu

troseddau, ac isddirprwyo mewn gorchmynion a wneir o dan adran 13 (gyda hepgoriad cysylltiedig yn is-baragraff 22(2) o'r Ddeddf). Effaith y diwygiadau hyn yw egluro beth yw cwmpas y pŵer yn adran 13 o Ddeddf 2006 a beth fu cwmpas y pŵer erioed.

#### **RHAN 4 - CYFFREDINOL**

##### **Adran 25 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.**

81. Mae adran 25 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed drwy reoliadau mewn cysylltiad â darpariaethau'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth arall. Pan ddefnyddir y pŵer i ddiwygio, diddymu neu addasu deddfwriaeth sylfaenol, mae'r Offeryn Statudol sy'n deillio o hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

##### **Adran 26 - Dod i rym**

82. Mae adran 26 yn nodi pryd a sut y daw darpariaethau'r Ddeddf i rym.
83. Daw darpariaethau Rhan 2 (gan gynnwys Rhan 2 o'r Atodlen) a Rhan 4 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol (gweler is-adran (1)).
84. Daw darpariaethau Rhan 3 i rym 2 fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol (gweler is-adran (2)).
85. Daw darpariaethau Rhan 1 a Rhan 1 o'r Atodlen i rym ar ddiwrnodau a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru (gweler is-adran (3)). Caiff y gorchmynion sy'n dwyn darpariaethau i rym bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol a gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed (gweler is-adran (4)). Rhaid i orchmynion o'r fath gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig. Yn unol ag adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) rhaid gosod y gorchymyn gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud.

##### **Adran 27 - Enw byr**

86. Mae adran 27 yn nodi enw byr y Ddeddf, y caniateir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

#### **COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU**

87. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd yn:

<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46598>

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) 2026 (asc 9) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026*

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwynwyd	3 Tachwedd 2025
Cyfnod 1 - Dadl	13 Ionawr 2026
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	12 Chwefror 2026
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	17 Mawrth 2026
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Senedd	17 Mawrth 2026
Y Cydsyniad Brenhinol	27 Ebrill 2026

## Atodiad 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tud. 2
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tud. 4–33
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 45
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;  (b) manylion y Bil, a  (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 36–38

<b>Rheol sefydlog</b>		<b>Adran</b>	<b>Tudalennau/ paragraffau</b>
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 36–38
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 36–38
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tud. 67–84
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:  (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;  (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;  (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 40–57

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
	<p>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac</p> <p>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio</p>		
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 43
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tud. 36–39

<b>Rheol sefydlog</b>		<b>Adran</b>	<b>Tudalennau/ paragraffau</b>
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn gymwys i'r Bil hwn	
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 63 -64
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi.	
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau	Tud. 88–125

Noder: mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unswydd er mwyn helpu pobl i ddeall Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Atodiad 3 - Atodlen o ddiwygiadau

### Y diwygiadau sydd i gael eu gwneud gan Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

Bwriad y ddogfen hon yw dangos sut y byddai darpariaethau yn y ddeddfwriaeth a ganlyn, fel y'i maent yn gymwys o ran Cymru ar 26 Mawrth 2026, yn edrych ar ôl iddynt gael eu diwygio gan Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) 2026.

Deddfwriaeth Sylfaenol

- Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn.~~

Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn.

At ddibenion y drafft hwn, amlygir diwygiadau mewn **coch**.

Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Lle bo hynny'n berthnasol, cynhwysir darpariaethau cysylltiedig o'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, i gynorthwyo dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig.

Noder: mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unswydd er mwyn helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Adran	Diwygiwyd gan
<p><b>13 Power of the Welsh Ministers to make provision about Senedd elections etc.</b></p> <p>(1) The Welsh Ministers may by order make provision that would be within the legislative competence of the Senedd, if included in an Act of the Senedd, as to—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) the conduct of elections of Members of the Senedd,</li> <li>(b) the questioning of an election of Members of the Senedd and the consequences of irregularities, and</li> <li>(c) the return of a Member of the Senedd otherwise than at an election.</li> </ul> <p>(2) The provision that may be made under subsection (1)(a) includes, in particular, provision—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) about the registration of electors,</li> <li>(b) for disregarding alterations in a register of electors,</li> <li>(c) about the limitation of the election expenses of candidates, <del>(and the creation of criminal offences in connection with the limitation of such expenses)</del></li> <li>(d) for the combination of polls,</li> <li>(e) ... and</li> <li>(f) for modifying section 9(7) to ensure the allocation of the correct number of seats for the constituency.</li> </ul> <p><u>(2A) The Welsh Ministers must make provision of the kind that may be made under subsection (1)(a) prohibiting the making or publishing of false or misleading statements of fact before or during an election for the purpose of affecting the return of any candidate.</u></p> <p><u>(2B) The provision required by subsection (2A) may include, in particular, provision—</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) <u>about what is or is not a “statement of fact”;</u></li> <li>(b) <u>prohibiting false statements only or both false and misleading statements;</u></li> <li>(c) <u>specifying the period in which any prohibition has effect;</u></li> <li>(d) <u>prohibiting false or misleading statements of fact relating to matters specified in the order or matters generally;</u></li> <li>(e) <u>prohibiting false or misleading statements of fact made or published by persons or categories of person specified in the order or any person;</u></li> <li>(f) <u>prohibiting the making or publishing of false or misleading statements knowingly or recklessly;</u></li> <li>(g) <u>specifying exemptions or exceptions to any prohibition.”</u></li> </ul> <p>(3) The provision that may be made under subsection (1)(c) includes, in particular, provision modifying section 11(4) to (6).</p> <p>(4) An order under this section may—</p>	<p>Rhan 3 Adran 22</p>

Noder: mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unswydd er mwyn helpu pobl i ddeall Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(a) apply or incorporate, with or without modifications or exceptions, any provision of or made under the election enactments, and</p> <p>(b) so far as may be necessary in consequence of any provision made by an order under this section, make modifications of any provision made by or under any enactment relating to the registration of parliamentary electors or local government electors.</p> <p><u>(4A) For the avoidance of doubt, an order under this section may—</u></p> <p>(a) <u>confer a power or duty on any person (including a power or duty to make subordinate legislation);</u></p> <p>(b) <u>create criminal offences.</u></p> <p>(5) In subsection (4)(a) "the election enactments" means—</p> <p>(a) the Representation of the People Acts,</p> <p>(b) the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000,</p> <p>(c) ...and</p> <p>(d) any other enactments relating to parliamentary elections or local government elections.</p> <p>(6) No return of a Member of the Senedd at an election may be questioned except by an election petition under the provisions of Part 3 of the Representation of the People Act 1983 as applied or incorporated in an order under this section.</p> <p>(7) No order is to be made under this section unless a draft of the statutory instrument containing it has been laid before, and approved by a resolution of, the Senedd.</p>	
<p><b>28 Committees and sub-committees</b></p> <p>(1) The standing orders may provide—</p> <p>(a) For the appointment of committees of the Senedd, and</p> <p>(b) For such committees to have <del>power to appoint</del> sub-committees,</p> <p>(2) The members of a committee of the Senedd, or of a sub-committee of such a committee, may not include anyone who is not a Member of the Senedd, <u>except the members of the Standards of Conduct Committee or a sub-committee of the Standards of Conduct Committee.</u></p> <p>(3) The standing orders must make provision about the membership, chairing and procedure of committees of the Senedd and sub-committees of such committees.</p> <p>(4) The standing orders may include provision for excluding from the proceedings of a committee of the Senedd, or a sub-committee of such a committee, a Member of the Senedd who is not a member of the committee or sub-committee.</p> <p>(5) The validity of any proceedings of a committee of the Senedd, or of a subcommittee of such a committee, is not affected by—</p> <p>(a) any vacancy in its membership,</p> <p>(b) any defect in the appointment of its members or of the person who chairs it, or</p> <p>(c) any failure to comply with provisions of the standing orders relating to procedure.</p>	<p>Rhan 2 Adran 18(2)</p>

Noder: mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unswydd er mwyn helpu pobl i ddeall Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

### **30A Standards of Conduct Committee**

- (1) The committees of the Senedd must include one to be known as the Standards of Conduct Committee or Pwyllgor Safonau Ymddygiad or by such other name as the Senedd may determine; and, if the Senedd makes such a determination, references to the committee in—
- (a) any enactment (including any enactment comprised in or made under this Act) or prerogative instrument, or
  - (b) any other instrument or document, have effect accordingly.
- (2) The Standards of Conduct Committee is to have functions relating to the standards of conduct of Members of the Senedd specified by the standing orders; and the standing orders may specify that it has other functions.
- (3) The Standards of Conduct Committee is to have the number of members specified by the standing orders,
- (4) The standing orders must provide for the membership of the Standards of Conduct Committee to include one or more lay members.
- (5) In this section and in section 30B, “lay member” means a member who is not a Member of the Senedd.
- (6) The standing orders may include provision—
- (a) for excluding from the proceedings of the Standards of Conduct Committee, or a sub-committee of the Committee, a member of the committee or sub-committee who is a lay member;
  - (b) for the membership of sub-committees of the Standards of Conduct Committee, which may include provision for members of sub-committees who are not appointed by, nor members of, the Committee;
  - (c) for sub-committees of the Standards of Conduct Committee that are composed entirely of one or more lay members for the purpose of carrying out appeals or reviews of Committee or sub-committee proceedings concerning the conduct of Members of the Senedd.
